# Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2022/23

HC 1625

# Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol

## Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2022/23

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag Atodlen 2(16) o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru gan Weinidogion Cymru yn unol ag Atodlen 2(16) o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar **20 Gorffennaf 2023**

**HC 1625**

OGL

© Hawlfraint yr Awdurdod Meinweoedd Dynol 2023

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall.

To view this licence, visit nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn enquiries@hta.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4033-6
E02892888 07/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys 40% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


Rhagair y Prif Weithredwr ........ 6

Adroddiad ar Berfformiad ........ 8

Trosolwg ........ 9

Dadansoddi perfformiad ........ 18

Adroddiad Atebolrwydd 27

Adroddiad llywodraethu corfforaethol ........ 28

Yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ........ 43

Adroddiad ar atebolrwydd seneddol ac archwilio ........ 57

Datganiadau ariannol 67

# Rhagair y Prif Weithredwr

Mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yn rheoleiddio'r defnydd diogel, drwy gydsyniad, o feinweoedd ac organau dynol, ac mae ganddo gyfrifoldebau dros y DU gyfan. Rydym yn trwyddedu mwy na 950 o sefydliadau sy'n cynnwys amrywiaeth eang o leoliadau meddygol, gwyddonol, ymchwil ac addysgol. Rydym yn cynghori Gweinidogion a swyddogion yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y gweinyddiaethau datganoledig, a'r cyhoedd a rhanddeiliaid mewn perthynas â'n cylch gwaith.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23 yr Awdurdod Meinweoedd Dynol. Dyma fy mlwyddyn lawn gyntaf fel Prif Weithredwr ac rwyf yn falch iawn o'r gwaith a wnaed gydag ymroddiad fy nghydweithwyr a'r Bwrdd. Gyda thargedau heriol a chynllun busnes uchelgeisiol, rydym wedi ceisio gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein gweithrediadau presennol gan ddiwygio ein dull rheoleiddio ar yr un pryd. Mae gennym ffocws craff ar waith rheoleiddio rheng flaen yn ogystal â'r ffordd fwyaf effeithiol o gefnogi'r gwaith hwn ar y cyd â'n gweithgareddau hanfodol eraill.

Ar ddechrau'r flwyddyn fusnes hon, o safbwynt diwygio ein dull rheoleiddio, gwnaethom y penderfyniad beiddgar i gyflymu ein diwygiadau rheoleiddio drwy gynyddu ein targed ar gyfer arolygiadau lle rhoddir rhybudd 50%, o 140 yn 2021/22 i 210 yn ystod y flwyddyn hon. O ganlyniad, rydym wedi rhoi mwy o sylw i'r meysydd uchaf eu risg ac wedi defnyddio dull mwy cymesur mewn perthynas â'r deiliaid trwydded hynny â lefelau uchel o gydymffurfiaeth. Mae dull seiliedig ar risg o'r fath, sy'n fwy penodol, wedi cael ei roi ar waith am gost debyg, drwy ddefnyddio amrywiaeth ehangach o fodelau arolygu mwy arloesol. Rydym hefyd yn treialu system hunanasesu ar gyfer sefydliadau isel eu risg. Mae'n bleser gennyf nodi ein bod, yn 2022/23, wedi diwygio ein dull ac wedi llwyddo i gyrraedd y targed o 210.

Ochr yn ochr â hyn, er mwyn helpu i ddiwygio ein gweithgareddau cymorth a'u gwneud yn fwy cydnerth, rydym hefyd wedi gweithio i greu gwasanaethau a rennir ar gyfer Cyrff Hyd Braich. Rydym eisoes yn rhannu swyddogaeth gyllid â'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (HFEA) ac, o ganlyniad i waith paratoi yn 2022/23, bydd y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) yn dechrau darparu gwasanaethau adnoddau dynol a rennir ar ein rhan o 2023/24. Rydym hefyd yn ystyried gwasanaethau TG a rennir.

Ymhlith uchafbwyntiau eraill 2022/23 mae'r canlynol:

- Cefnogodd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (yr Awdurdod) waith i gyflwyno cydsyniad tybiedig yng Ngogledd Iwerddon. Pasiodd Cynulliad Gogledd Iwerddon Ddeddf Rhoi Organau a Meinweoedd (Cydsyniad Tybiedig) (Gogledd Iwerddon) 2022 ym mis Chwefror 2022, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 30 Mawrth 2022. Mae Cod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol wedi cael ei ddiwygio a daeth trefniadau newydd ar gyfer cydsyniad tybiedig i rym ar 1 Mehefin 2023.
- Mae'r Awdurdod wedi parhau i roi cefnogaeth lawn i'r Ymchwiliad Annibynnol i droseddau David Fuller yn Ymddiriedolaeth GIG Maidstone a Tunbridge Wells, gan gynnwys darparu dogfennau, cyngor a thystiolaeth fel rhan o'r Ymchwiliad y flwyddyn hon.
- Gwnaethom gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar gyfer sefydliadau i'w helpu i fodloni'r safonau yn y Cod Ymarfer ar gyfer y sector post-mortem ac yn dilyn hyn, ym mis Ionawr, cyhoeddwyd canllawiau diwygiedig ar fodloni'r safonau yn y Cod Ymarfer ar gyfer y sector anatomeg.

- Yn ystod 2022/23, gwnaethom ddiwygio'r fforwm ar gyfer ymgysylltu â sectorau. Bellach mae gennym fforwm ar wahân ar gyfer pob un o'r chwe sector rydym yn eu rheoleiddio (Defnydd mewn Bodau Dynol, Post-Mortem, Rhoi a Thrawsblannu Organau, Ymchwil, Anatomeg, ac Arddangosiadau Cyhoeddus). Rydym yn parhau i dyfu a datblygu ein hymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol ac â'r cyfryngau ehangach, i gefnogi ein strategaeth fel rheoleiddiwr atebol, modern.

Ein gweithlu yw ein hadnodd pwysicaf o hyd ac yn ystod 2022/23 cawsom gyfnod o drosiant staff sylweddol ar ôl y pandemig, ond lleihaodd hyn tua diwedd y flwyddyn. Mae ein harolygon staff yn dangos bod cydweithwyr wedi parhau i deimlo'n bositif ac yn ymrwymedig iawn i'n gwaith yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd wedi treulio rhywfaint o amser gyda'n gilydd dros y flwyddyn i ailystyried ein gweledigaeth a'n cenhadaeth ac ailddatgan ein gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus.

Rydym yn dechrau 2023/24 â chynllun busnes uchelgeisiol newydd. Bwriadwn ddiwygio ein dull rheoleiddio ymhellach, gan barhau i ddatblygu ein systemau, ein defnydd o ddata a'n prosesau llywodraethu mewnol ar yr un pryd. Rhagwelwn y bydd galw newydd am ein cyngor a'n harweiniad ac edrychwn ymlaen at barhau i weithio mewn partneriaeth â chyrff hyd braich eraill ym maes iechyd a chydweithio â rhanddeiliaid.

Fel yr wyf wedi dysgu eleni, mae'r Awdurdod yn sefydliad uchelgeisiol sydd â chymhelliant a phenderfyniad gwirioneddol i sicrhau bod gweithgareddau sy'n ymwneud â meinweoedd dynol yn cael eu cyflawni mewn ffordd ddiogel a moesegol er lles pennaf cleifion a rhoddwyr. Rwyf yn falch o'n cyflawniadau yn ystod y flwyddyn hon a'n cynlluniau i wella'r ffordd rydym yn gwneud busnes ymhellach dros y flwyddyn i ddod.



**Dr Colin Sullivan**
**Prif Weithredwr**

# Adroddiad ar Berfformiad

# Trosolwg

Rydym yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sydd wedi'i sefydlu a'i leoli yn Lloegr. Ein swyddfa gofrestredig yw 2 Redman Place, Stratford, Llundain E20 1JQ. Cawsom ein sefydlu o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 (y Ddeddf) – sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon – i reoleiddio gweithgareddau sy'n ymwneud â thynnu, storio, defnyddio a gwaredu meinweoedd dynol.

### Ein gweledigaeth

- Defnydd diogel a sicr o feinweoedd dynol.

### Ein cenhadaeth

- Bod yn **rheoleiddiwr ardderchog** mewn perthynas â defnyddio meinweoedd dynol yn **ddiogel, gyda chydsyniad**, gan gynnal **hyder** cyhoeddus a phroffesiynol, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn ceisio cynnal hyder cyhoeddus drwy sicrhau bod meinweoedd ac organau dynol yn cael eu tynnu, eu storio a'u defnyddio mewn ffordd ddiogel a moesegol, gyda chydsyniad priodol, yn unol â darpariaethau Deddf Meinweoedd Dynol 2004, Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) 2007 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu 2012 (fel y'u diwygiwyd).

Mae gennym rôl i'w chwarae hefyd i gynnal hyder proffesiynol, gan sicrhau bod y deunyddiau dynol a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol wedi dod i law â'r cydsyniad priodol a'u bod yn cael eu rheoli â'r gofal priodol.

### Sut rydym yn gweithio:

- Rydym yn trwyddedu sefydliadau sy'n tynnu, yn storio ac yn defnyddio meinweoedd dynol ar gyfer gweithgareddau penodol o dan y Ddeddf Meinweoedd Dynol (2004).
- Rydym yn trwyddedu sefydliadau sy'n cyflawni amrywiaeth o weithgareddau sy'n gysylltiedig â defnyddio meinweoedd a chelloedd dynol i drin cleifion, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) 2007 (fel y'u diwygiwyd).
- Rydym yn trwyddedu sefydliadau sy'n trawsblannu organau fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ansawdd a Diogelwch Organau y Bwriedir eu Trawsblannu 2012 (fel y'u diwygiwyd).
- Rydym yn monitro ac yn arolygu neu'n archwilio sefydliadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth a'n Codau Ymarfer.
- Rydym yn defnyddio ein pwerau i gymryd camau rheoleiddio pan fyddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio.

- Rydym yn asesu ac yn cymeradwyo achosion sy'n cynnwys rhoddwyr organau byw er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu cymell na'u gorfodi, ac nad oes unrhyw wobr yn cael ei chynnig na'i rhoi.
- Rydym yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ynghylch natur a diben gweithgareddau sy'n rhan o'n cylch gwaith.
- Rydym yn monitro datblygiadau mewn perthynas â gweithgareddau sy'n rhan o'n cylch gwaith ac yn rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar faterion cysylltiedig.

Yn ogystal â'n rôl statudol, mae galw cynyddol arnom i roi cyngor ar feysydd sy'n ymwneud â deddfwriaeth ond nad ydynt wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn meysydd lle ceir technoleg a gwaith ymchwil newydd nas rhagwelwyd yn wreiddiol pan gafodd y Ddeddf Meinweoedd Dynol ei deddfu.

Er bod gan yr Awdurdod ddyletswydd statudol i oruchwylio cydymffurfiaeth a rôl ddylanwadol i hyrwyddo arfer da, ni all yr Awdurdod ddiogelu hyder cyhoeddus yn y defnydd a wneir o feinweoedd dynol ar ei ben ei hun. Mae hyder cyhoeddus hefyd yn dibynnu ar y graddau y mae'r unigolion a'r sefydliadau sy'n cyflawni gweithgareddau o fewn cylch gwaith yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â safonau a gofynion y ddeddfwriaeth.

### Ein pobl

Mae bwrdd anweithredol yr Awdurdod yn cynnwys cadeirydd a 12 aelod. Caiff 10 o'r aelodau hyn eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol; caiff un aelod ei benodi gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a chaiff un arall ei benodi gan Adran Iechyd Gogledd Iwerddon. Daw aelodau ein Bwrdd o amrywiaeth eang o gefndiroedd gan gynnwys y sector masnachol, gweinyddiaeth ac academia/ymchwil, ac mae ganddynt brofiad helaeth yn y sectorau busnes, masnachol a chyhoeddus.

Prif rôl y Bwrdd yw sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Mae'n gwneud hynny drwy bennu cyfeiriad strategol yr Awdurdod a chynnig cymorth a her i'n tîm gweithredol, sy'n gyfrifol am gyflawni'r cyfrifoldebau hyn o ddydd i ddydd.

Cefnogir y Bwrdd gan Uwch Dîm Rheoli sy'n cynnwys pum unigolyn â phrofiad helaeth o'r sector cyhoeddus ac yn enwedig ym maes rheoleiddio ac iechyd a gofal cymdeithasol. Caiff yr Uwch Dîm Rheoli ei gefnogi gan dîm o 58 o aelodau o staff sydd â phrofiad sy'n amrywio o gefndiroedd gwyddonol a meddygol i gefndiroedd masnachol a busnes.

### Ein gwerthoedd

Ar ôl diwygio gweledigaeth a chenhadaeth yr Awdurdod yn ystod 21/22, yn 22/23 rydym wedi adolygu ac ailwampio ein gwerthoedd wrth i ni geisio bod yn fwy cynhwysol a gwella perfformiad ymhellach. Gellir crynhoi'r gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus rydym wedi'u dewis i ddisgrifio ein dull gweithredu ac y byddwn yn ceisio eu dilyn, fel a ganlyn: Cydweithio, Gonestrwydd, Parch a Rhagoriaeth.



### Ein Strategaeth

Mae ein dull strategol yn seiliedig ar fod yn glir ynghylch y risgiau rydym yn eu rheoleiddio, ac yna ymateb mewn ffordd gymesur a phenodol. Yn 2022/23 gwnaethom ddatblygu'r themâu cychwynnol o'n strategaeth tair blynedd – cyflawni, datblygu a defnyddio – i lunio pedwar amcan strategol, sy'n fwy uchelgeisiol. Byddwn yn parhau i ddilyn y trywydd hwn yn 2023/24 wrth i ni gwblhau'r cynllun strategol presennol a datblygu'r un nesaf. Byddwn yn feiddgar ac yn uchelgeisiol wrth i ni ganolbwyntio ar gyflawni'n effeithlon gan geisio datblygu ac arloesi hyd yn oed yn fwy.

**1. Strategic direction**

Confirm the direction for the HTA as a sector leader and highly regarded regulator

**2. Operational delivery**

Be an excellent, modern accountable regulator – efficient and effective, performing and communicating well

**3. People and capability**

Ensure that we have the right people and financial resources to enable us to deliver our organisational goals

**4. Moving forward**

Modernise how we regulate with better use of data and analytics, more risk-based prioritisation and joint endeavours

## Crynodeb o berfformiad

Mae sicrhau bod meinweoedd ac organau dynol yn cael eu trin ag urddas, eu defnyddio â chydsyniad priodol y bobl dan sylw, a'u storio'n ddiogel, wrth wraidd yr hyn a wnawn yn yr Awdurdod Meinweoedd Dynol. Ceisiwn fod yn rheoleiddiwr iechyd hyblyg, atebol, modern o'r radd flaenaf sy'n ymdrin yn gymesur â'r gwahanol sectorau rydym yn eu goruchwylio heddiw, gan baratoi hefyd i ateb heriau rheoleiddio y dyfodol.

Yn 2022/23, ceisiodd yr Awdurdod foderneiddio ein dull rheoleiddio a chynnal rhaglen arolygu a thrwyddedu gynhwysfawr ar gyfer y sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio. Gwelwyd cynnydd sylweddol o oddeutu 50% yn nifer yr arolygiadau a gwblhawyd, o darged o 140 yn 21/22 i 210 yn 22/23 gan ddefnyddio'r un gweithlu. Roedd y dull hwn wedi gwella effeithlonrwydd a chynyddu sicrwydd ac fe'i cyflawnwyd drwy weithio mewn ffordd fwy cymesur gan gynnal arolygiadau wedi'u teilwra i raddau mwy mewn sefydliadau ar sail eu risg berthynol. Yn 2023/24 byddwn yn adeiladu ar y sylfeini hynny, gan fod yn fwy beiddgar a pharhau i herio ein hunain i reoleiddio'r sectorau rydym yn eu goruchwylio mewn ffordd sydd hyd yn oed yn fwy cymesur drwy ddefnyddio detholiad gwahanol o adnoddau rheoleiddio ac ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn cydweithio'n effeithiol er budd y cyhoedd a lleihau'r baich rheoleiddio ymhellach ar y sefydliadau hynny â'r lefelau

cydymffurfio uchaf. I baratoi ar gyfer 23/24, rydym wedi treialu dull newydd o bennu proffil arolygiadau a gweithgarwch rheoleiddio drwy ddefnyddio nifer o ffynonellau data gwahanol i bennu risg berthynol pob sector.

Ar ddechrau blwyddyn fusnes 2022/23, gwnaethom gyflwyno proses rheoli portffolio i'n trefniadau cynllunio busnes. Mae'r broses hon yn sicrhau bod gofynion busnes yr Awdurdod yn cael eu bodloni mewn ffordd dryloyw, gan wneud y gorau o'n hadnoddau a gweithredu'n gyson â'n strategaeth a'n hegwyddorion busnes craidd. Fel hyn, gallwn fonitro cynnydd ein holl weithgareddau'n barhaus, sicrhau bod cerrig milltir yn cael eu cyflawni'n amserol, nodi camau unioni lle bo hynny'n briodol a sicrhau bod buddsoddiadau'r Awdurdod yn sicrhau'r buddiannau y cytunwyd arnynt.

Caiff y broses ei rheoli gan ein Rheolwr Portffolio sy'n cydweithio â'r Tîm Gweithredol a'r Penaethiaid Gwasanaeth. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr adran ar Fesur Perfformiad.

## Materion allweddol yn 2022/23

### Recriwtio

Roedd diwedd blwyddyn fusnes 2021/22 yn gyfnod prysur o ran recriwtio ac mae hyn wedi parhau yn 2022/23. Yn wir, daeth y farchnad yn llawer mwy anwadal yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn fusnes. Yn benodol, roedd rolau data a thechnoleg yn anodd i'w llenwi am fod mwy o gystadleuaeth rhwng sefydliadau. Fel corff sector cyhoeddus, mae terfyn ar y gydnabyddiaeth y gallwn ei chynnig ond rydym wedi gweithio gydag Is-bwyllgor Cydnabyddiaeth y Bwrdd i ystyried beth sy'n bosibl. Ateb byrdymor fu penodi staff ar gontractau cyfnod penodol. Er mwyn ymateb i'r her hon, rydym wedi gorfod defnyddio dulliau recriwtio mwy ystwyth gyda rheolwyr llinell yn arwain y broses gyda chymorth Adnoddau Dynol ac yn cyflymu'r broses recriwtio er mwyn osgoi colli'r ymgeiswyr gorau. Gan fod gweithio hybrid yn fwy cyffredin nag o'r blaen, rydym hefyd wedi ceisio cynyddu diddordeb drwy hysbysebu ledled y DU.

### Ymchwiliad Annibynnol i ddigwyddiadau yn Ymddiriedolaeth GIG Maidstone a Tunbridge Wells

Cafodd yr Ymchwiliad Annibynnol ei sefydlu gan yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn ymchwilio i ddigwyddiadau yn Ymddiriedolaeth GIG Maidstone a Tunbridge Wells ar ôl i David Fuller gael ei euogfarnu yn 2021. Rydym wedi bod yn cefnogi'r Ymchwiliad ac ym mis Mai 2022 gwnaethom gyhoeddi'r cyngor a ddarparwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi diwygio ein canllawiau mewn perthynas â bodloni'r safonau yn ein Codau Ymarfer ar gyfer y sector post-mortem a'r sector anatomeg.

### Gwella effeithlonrwydd a lleihau risg drwy ddiwygio ein dull arolygu

Fel rhan o'r Cynllun Busnes ar gyfer 2022/23 a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd ar ddiwedd 2021/22, rydym wedi cynyddu nifer yr arolygiadau o 140 i 210 drwy fabwysiadu amrywiaeth ehangach o ddulliau arolygu, fel arolygiadau thematig. Roedd y targed newydd hwn hefyd yn cysylltu â gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i adolygu ein dull arolygu ac ailgyflwyno trefniadau casglu data rheolaidd. Fel rhan o'r adolygiad, bu'n rhaid defnyddio cyflenwyr allanol a

benodwyd drwy fframwaith Gwasanaeth Masnachol y Goron. Bu hyn yn heriol o ganlyniad i'r rheolaethau ar wariant a gyflwynwyd ym mis Mai 2021 a oedd yn golygu bod yn rhaid cyflwyno achosion busnes i Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Arweiniodd y broses ychwanegol hon at oedi yn y broses dendro am na allai'r broses dendro ddechrau hyd nes bod Swyddfa'r Cabinet wedi rhoi cymeradwyaeth, a effeithiodd hyn ar amserlenni ymhellach.

## Pecyn Cymorth Amddiffyn a Diogelu Data

Mae'r Pecyn Cymorth Amddiffyn a Diogelu Data yn un o blith sawl system sydd ar waith i helpu sefydliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i reoli risgiau o ran amddiffyn a diogelu data. Mae'r Pecyn Cymorth yn galluogi sefydliadau i fesur eu perfformiad yn erbyn deg safon diogelu data y Gwarcheidwad Data Cenedlaethol ac yn eu helpu i gydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol.

Bu'n rhaid buddsoddi adnoddau sylweddol yn sgil cyflwyno'r safon hon yn yr Awdurdod Meinweoedd Dynol. O ystyried yr anawsterau recriwtio mewn rhai meysydd allweddol, nid oedd yn syndod mai Cyfyngedig oedd canfyddiad ein hasesiad ym mis Mehefin 2022.

Mae'r Pecyn Cymorth, sy'n galw ar yr Awdurdod i hunansesu i ba raddau y mae'n bodloni'r safonau a nodir, wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn. I ddechrau, nid oedd y Pecyn Cymorth yn gymwys i'r Awdurdod am fod yr Awdurdod yn rhy fach ac nad oedd ganddo ddigon o adnoddau, ond mae'r Pecyn Cymorth wedi cael ei ymestyn bellach i gynnwys sefydliadau bach fel yr Awdurdod.

Cafodd canlyniad yr asesiad ym mis Mehefin 2022 ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Hydref 2022. Yng nghanlyniad yr ymarfer dilysu annibynnol o asesiad 2021/22 a gwblhawyd gan Asiantaeth Archwilio Fewnol y Llywodraeth, nodwyd bod yr asesiad risg cyffredinol ar gyfer y 10 safon yn anfoddhaol a bod y lefel sicrwydd, ar sail lefel hyder yr Asesydd Annibynnol, yn “gyfyngedig”. Mae hyn yn golygu bod yr Awdurdod yn bodloni naw safon, yn bodloni pum safon yn rhannol ond nad oedd yn bodloni 29 o safonau. Bu'n rhaid i'r Awdurdod wynebu sawl her ar yr un pryd yn ystod y cyfnod asesu gan gynnwys colli staff allweddol a phroblemau â'r porth cyflwyno tystiolaeth, a oedd wedi golygu nad oedd yr holl dystiolaeth ar gael i'w hasesu mewn pryd.

Mewn ymateb i hyn, yn ystod 22/23, mae'r Awdurdod wedi ymdrechu ar y cyd i unioni'r problemau hyn:

- Rhoddwyd cynllun lefel uchel ar waith i gydymffurfio'n well â phob safon genedlaethol
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi cael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd mewn perthynas â'r Pecyn Cymorth.
- Mae Arweinydd Llywodraethu Gwybodaeth / Diogelu Data wedi cael ei benodi i gydlynu asesiad yr Awdurdod o dan y Pecyn Cymorth yn 2022/23 ar y cyd ag arweinwyr y Pecyn Cymorth.
- Mae Rheolwr Prosiect wedi cael ei glustnodi i sicrhau cywirdeb a rheolaeth er mwyn cefnogi'r broses.
- Mae cyfarfodydd Gweithgor a sesiynau gwirio a herio rheolaidd wedi cael eu cynnal ag arweinwyr y Pecyn Cymorth.

Mae'r Awdurdod wedi bod wrthi'n casglu tystiolaeth er mwyn cwblhau hunanasesiad 2022/23 erbyn y dyddiad cau ar 30 Mehefin. Ar yr un pryd, mae Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth wrthi'n

cynnal archwiliad mewnol annibynnol gan werthuso 44 o haeriadau ar hap sy'n rhychwantu'r 10 safon, er mwyn asesu cydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r Pecyn Cymorth.
Mae'r graddau dangosol (yn amodol ar ddilysiad yr Asiantaeth Archwilio) yn dangos gwelliant sylweddol o gymharu â'r llynedd:

- bernir bod 30 haeriad wedi'u ‘bodloni'n llawn’;
- bernir bod 13 haeriad wedi'u ‘bodloni'n rhannol’;
- bernir bod 0 haeriad ‘heb ei fodloni’

Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei hysbysu am y graddau dangosol ar gyfer 22/23 o archwiliad presennol yr Asiantaeth Archwilio ar 8 Mehefin 2023.

Rydym wedi cael canlyniad terfynol yr archwiliad ers hynny, lle gwelwyd bod ein gradd wedi gwella i ‘cymhedrol’ gyda 35 o'r haeriadau terfynol yn cael eu bodloni; naw yn cael eu bodloni'n rhannol, ac nad oedd unrhyw haeriad heb ei fodloni.

### Cydsyniad tybiedig yng Ngogledd Iwerddon

Yn ystod 22/23, mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio er mwyn helpu i gyflwyno cydsyniad tybiedig ar gyfer rhoi organau yng Ngogledd Iwerddon. Pasiodd Cynulliad Gogledd Iwerddon Ddeddf Rhoi Organau a Meinweoedd (Cydsyniad Tybiedig) (Gogledd Iwerddon) 2022 ym mis Chwefror 2022, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 30 Mawrth 2022. Rydym wedi diwygio'r Cod Ymarfer perthnasol (Cod F) ac o ganlyniad i hynny, mae Adran Iechyd Gogledd Iwerddon wedi bod yn paratoi i gyflwyno cydsyniad tybiedig. Mae Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd Gogledd Iwerddon wedi bod yn cynnal ymgyrch addysg ac ymwybyddiaeth gyhoeddus. Am nad yw Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi bod yn weithredol, cafodd y ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gadarnhau pa organau a meinweoedd a gaiff eu cynnwys yn narpariaethau'r gyfraith newydd ei chymeradwyo gan Senedd y DU ar 22 Chwefror 2023. Cafodd cydsyniad tybiedig ei gyflwyno yng Ngogledd Iwerddon o fis Mehefin 2023, sy'n golygu bod pedair gwlad y DU wedi mabwysiadu'r dull hwn erbyn hyn.

### Risgiau ar 31 Mawrth 2023

Mae'r Awdurdod yn ceisio cymryd pob cam rhesymol i reoli risg a'i amcan cyffredinol yw cyflawni amcanion busnes a strategol ac amddiffyn staff, rhanddeiliaid, y cyhoedd ac asedau.

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod saith risg strategol:

| Cod Adnabod | Risg | Risgiau a materion allweddol | Difrifoldeb y risg ar 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **R1** | Mae risg ein bod yn methu â rheoleiddio mewn ffordd sy'n cynnal diogelwch a hyder y cyhoedd | Y prif fater yw beth mae rheoleiddio 'da' yn ei olygu o safbwynt yr Awdurdod o gymharu â'r hyn y cred ein rhanddeiliaid y dylem fod yn ei wneud. | **Canolig** |
| **R2** | Mae risg na fyddwn yn gallu rheoli digwyddiad neu fater sy'n effeithio ar gamau i gyflawni amcanion yr Awdurdod. | Mae'r risg hon yn ystyried a yw'r Awdurdod yn rheoli digwyddiad sy'n ymwneud â'n hamcanion. Enghraifft o hyn fyddai Ymchwiliad Fuller neu os oes gan rywun bryder neu ddiffyg hyder mewn system y mae'r Awdurdod yn ei rheoleiddio a'r ffordd y mae'n rheoli digwyddiad. | **Canolig** |
| **R3** | Mae risg na fyddwn yn rheoli disgwyliadau cyhoeddus na phroffesiynol mewn perthynas â rheoleiddio meinweoedd dynol yn benodol o ganlyniad i gyfyngiadau yn y ddeddfwriaeth bresennol neu gamsyniad ynglŷn â phŵer rheoleiddio'r Awdurdod. | Cyfyngiadau ein deddfwriaeth bresennol a chamsynio ynglŷn â graddau ein pŵer i reoleiddio – dealltwriaeth pobl o'r hyn y dylai'r Awdurdod fod yn ei wneud. | **Canolig** |
| **R4** | Methiant i gymryd camau digonol i sicrhau'r gweithlu galluog ac amrywiol sydd ei angen ar yr Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau a'i amcanion | Mae'r risg hon yn ymwneud â'n gweithlu ac nad oes gennym ddigon o bobl ac nad ydynt yn cael eu datblygu'n briodol ac nad ydynt yn defnyddio eu sgiliau'n effeithiol. Sicrhau bod gennym ddigon o bobl sydd wedi cael hyfforddiant addas i gyflawni ein hamcanion – mae hyn yn cysylltu â'n strategaeth pobl yn y bôn. | **Uchel** |
| **R5** | Mae risg bod yr Awdurdod yn rheoli ei adnoddau ariannol yn annigonol neu'n aneffeithiol | Yr her o sicrhau bod gan yr Awdurdod ddigon o arian a'n bod yn defnyddio adnoddau yn effeithiol ac yn briodol yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus. | **Isel** |
| **R6** | Methiant i nodi cyfleoedd a chyflawni'r manteision sy'n gysylltiedig â thrawsnewid a newid yn barhaus er mwyn | Mae hyn yn ymwneud â heriau sy'n peri oedi i'n hagenda ddiwygio neu'n effeithio arni mewn ffordd arall, yn bennaf diffyg pobl a buddsoddiad ariannol, er enghraifft, anawsterau recriwtio mewn perthynas â | **Uchel** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | helpu i foderneiddio a gwella'r Awdurdod. | sgiliau arbenigol sy'n effeithio ar ein gallu i ddatblygu gwasanaethau TG a rennir. | |
| **R7** | Methiant i wneud y defnydd mwyaf diogel posibl o'r data digidol a'r dechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd | Mae'r risg hon yn ymwneud â pheidio â defnyddio ein data'n effeithiol ac mae'n cysylltu â risg 6 uchod. | **Uchel** |

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn datblygu'r gofrestr risgiau strategol bob blwyddyn i sicrhau bod y risgiau strategol a nodir yn cyd-fynd â'r amcanion a'r allbynnau y cytunwyd arnynt yn y cynllun busnes blynyddol. Yna, caiff y risgiau hyn eu hadolygu bob mis gan yr Uwch Dîm Rheoli a chaiff y gofrestr ei diweddaru yn ôl yr angen.

Ar ddiwedd blwyddyn fusnes 2022/23, roedd gan yr Awdurdod saith risg strategol y mae pedair ohonynt wedi aros yn risgiau isel i ganolig; cafodd un risg ei chynyddu i uchel yn ystod ail a thrydydd chwarter y flwyddyn fusnes; aseswyd bod dwy risg yn uchel ac maent yn parhau felly ar ddiwedd y flwyddyn.

Ar ddiwedd y flwyddyn, aseswyd bod risgiau un a thri yn ‘ganolig’ a'u bod islaw'r lefel goddefiant. Mae'r risgiau hyn yn gysylltiedig â'i gilydd am fod y ffordd rydym yn rheoleiddio yn effeithio ar farn y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ar ein gwaith. Rydym yn rheoli'r ddwy risg hyn drwy sicrhau model rheoleiddio addas at y diben, sy'n cynnwys cymysgedd o asesiadau rheoleiddio rhagweithiol a rhai sydd wedi'u targedu, sganio'r gorwel ac ymgysylltu â rhanddeiliaid proffesiynol.

Mae risg dau, sef methiant i reoli digwyddiad, wedi aros yn sefydlog drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, gwnaethom brofi ein cynlluniau ymateb er mwyn rheoli digwyddiad yn ystod y flwyddyn ac yn sgil hyn ailwampiwyd ein Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad Critigol a diweddarwyd ein Cynllun Parhad Busnes.

Risg pedwar yw ein risg o ran ‘pobl’ ac fe'i haddaswyd ar ddechrau'r flwyddyn i ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau gweithlu amrywiol a galluog. Mae'r risg hon yn cysylltu â phob maes risg arall gan ei bod yn dibynnu ar sicrhau bod gennym y staff i gyflawni ein hamcanion busnes. Bu'r flwyddyn hon yn heriol o ran recriwtio. Roedd y farchnad yn anwadal a gwelwyd lefelau uwch na'r arfer o drosiant yn dilyn pandemig COVID-19. Yn ogystal, rydym wedi cael anhawster llenwi nifer o swyddi arbenigol. Elfen arall sy'n effeithio ar y risg hon yw'r rheolaethau presennol ar wariant sy'n golygu bod yn rhaid cyflwyno achosion busnes wrth recriwtio gweithwyr amharhaol neu ymgynghorwyr proffesiynol. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd gennym un swydd TG ar ôl i'w llenwi.

Risg pump yw'r risg ariannol y bydd adnoddau ariannol yn cael eu rheoli'n annigonol neu'n aneffeithiol. Mae'r risg hon yn parhau uwchlaw'r lefel goddefiant ac fe'i derbyniwyd gan y Tîm Gweithredol. Yn ystod 2022/23, gwelwyd cynnydd mewn tanwariant. Mae ein cynigion i recriwtio contractwyr allanol a gwasanaethau proffesiynol yn cefnogi darn mawr o waith ar adolygu arolygiadau. Bu'n rhaid oedi'r gwaith hwn er mwyn aros i'n hachos busnes gael ei gymeradwyo. Cafodd ei gymeradwyo ond cynyddodd y tanwariant yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'r oedi. Mae cael gafael ar gronfeydd dros ben yn broblem sydd wedi cael ei chodi â'n Hadran noddi.

Mae ein risg olaf ond un, risg chwech – methiant i gyflawni'r manteision sy'n gysylltiedig â rhaglen trawsnewid y sefydliad, yn parhau i fod yn uchel ac uwchlaw'r lefel goddefiant. Roedd y risg hon yn

canolbwyntio ar ein rhaglen waith a'n cynlluniau cyflawni diwygiedig ar gyfer blwyddyn fusnes 2022/23. Er bod ein cynlluniau wedi cael eu datblygu, er mwyn eu gweithredu, rhaid cael arbenigedd addas a chymeradwyaeth ar gyfer gwariant fel y nodir yn risg pump.

Roedd ein risg olaf, risg saith – methiant i wneud y defnydd mwyaf diogel posibl o adnoddau digidol, data a thechnoleg, yn ‘uchel’ ac uwchlaw'r lefel goddefiant ar ddiwedd y flwyddyn hefyd. Mae'r risg hon yn ymwneud â'r elfennau TG a oedd wedi cael eu cynnwys cyn hyn fel rhan o'n risg pobl, sef risg pedwar. Cafodd ei gwahanu a'i haddasu i ddarparu mwy o oruchwyliaeth dros y ddibyniaeth gynyddol ar adnoddau digidol, data a thechnoleg er mwyn sicrhau llwyddiant gweithredol yr Awdurdod nawr ac yn y dyfodol. Mae adnoddau yn parhau i lesteirio cynnydd yn y maes hwn ac mae prosesau recriwtio ar waith i lenwi swyddi allweddol. Bydd y risg hon yn lleihau wrth i ni recriwtio pobl i lenwi sawl rôl allweddol.

## Busnes gweithredol

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer yr Awdurdod ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn y Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u dehonglir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

Caiff yr Awdurdod ei ariannu drwy gymorth grant a ddarperir gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gaiff ei hariannu drwy Senedd y DU. Mae'r Senedd honno wedi dangos ei hymrwymiad i barhau i ariannu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol rhagweladwy ac mae'r Adran yn ariannu'r Awdurdod drwy gymorth grant yn ychwanegol at gyllid a ddaw o ffioedd trwydded o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus.

Cytunwyd ar ein cyllid gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer y flwyddyn nesaf, ond mae wedi'i addasu yn unol â'r rhaglen diwygiadau ac effeithlonrwydd a'n ffioedd trwydded a gaiff eu codi yn unol â statudol ac sy'n cynhyrchu incwm gwarantedig. Caiff ffioedd trwydded eu pennu ym mis Rhagfyr bob blwyddyn, cyn i ni filio ein sefydliadau ym mis Ebrill a mis Medi y flwyddyn ganlynol. Mae gennym hefyd fwy nag £1m mewn cronfeydd wrth gefn sy'n galluogi'r Awdurdod i barhau â'i weithgareddau gweithredol craidd.

Yr Awdurdod yw un o'r cyrff hyd braich a fydd yn rhan o'r broses adolygu cyrff cyhoeddus. Nid ydym wedi cael cadarnhad eto o ddyddiad adolygiad yr Awdurdod.

Ar sail yr uchod, gall y Bwrdd ddisgwyl yn rhesymol bod ganddo ddigon o adnoddau i barhau i fod yn weithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Am y rheswm hwn, mae'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu yn parhau i fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol.

# Dadansoddi perfformiad

## Mesur perfformiad

Bob blwyddyn, rydym yn cytuno ar gynllun busnes â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n cynnwys nodau strategol, amcanion lefel uchel a dangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â chyflawni ein cylch gwaith statudol ac atebolrwydd cyhoeddus.

Caiff adroddiad rheoli misol ei lunio a'i rannu â'r Uwch Dîm Rheoli a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth reoli a ddefnyddir gan y Penaethiaid Gwasanaeth i weld pa waith sydd yn yr arfaeth ac unrhyw adegau prysur o ran llwyth gwaith neu risgiau i allbynnau'r cynllun busnes. Dyluniwyd yr adroddiad hefyd i roi sicrwydd i'r Uwch Dîm Rheoli bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n gywir.

Yn ystod chwarteri tri a phedwar, rhoddwyd dull rheoli portffolio ar waith. Mae'r broses monitro portffolio yn monitro cynnydd pob gweithgaredd yn barhaus, yn sicrhau bod cerrig milltir yn cael eu cyflawni'n amserol, yn nodi camau unioni lle bo hynny'n briodol ac yn sicrhau bod buddsoddiadau'r Awdurdod yn arwain at fuddiannau.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnal cyfarfodydd portffolio misol i drafod gweithgareddau presennol, cerrig milltir, cynnydd prosiectau, risgiau presennol a'r dangosyddion perfformiad newydd.

Isod ceir rhai o'r dangosyddion perfformiad allweddol y cafodd y Bwrdd ei hysbysu amdanynt yn ystod y flwyddyn fusnes 2022/23.

## Dadansoddiad o berfformiad dros y flwyddyn

**Dangosyddion Perfformiad y Cynllun Busnes 2022/23**

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

| Targedau | Sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 22/23 |
|---|---|
| Targed – 210 o arolygiadau dros y sectorau i gyd | **210** |
| Cyflwyno 90% o adroddiadau arolygu drafft i'r Unigolyn Dynodedig er mwyn sicrhau cywirdeb ffeithiol o fewn 20 diwrnod gwaith | **89% (198/222)** |

| | |
|---|---|
| Cyhoeddi 90% o adroddiadau arolygu/archwilio ar wefan yr Awdurdod o fewn 10 wythnos i'r gwaith arolygu/archwilio gael ei gwblhau | **86% (185/214)** |
| Ateb 95% o ymholiadau o fewn 10 diwrnod gwaith i'w derbyn | **92% (1208/1311)** |
| Prosesu 90% o geisiadau wedi'u cwblhau o fewn 90 diwrnod gwaith i'r taliad | **63% (19/30)** |
| Cynnal 100% o achosion panel yn unol â'r meini prawf ansawdd a nodir yn y weithdrefn weithredu safonol, ac o fewn 10 diwrnod gwaith | **99% (219/221)** |
| Cynnal 100% o achosion nad ydynt yn rhai panel yn unol â'r meini prawf ansawdd a nodir yn y weithdrefn weithredu safonol, ac o fewn pum diwrnod gwaith | **100% (754/755)** |

Hon oedd y flwyddyn gyntaf i ddangosyddion perfformiad allweddol gael eu hailgyflwyno ar ôl pandemig COVID-19. Roedd hyn yn her i ni wrth benderfynu ble i bennu targedau ymestynnol a beth y dylid ei fesur. Roedd y sefydliad wedi perfformio'n dda yn erbyn y dangosyddion perfformiad a bennwyd, yn enwedig wrth gyrraedd targed llawer uwch ar gyfer nifer yr arolygiadau a gaiff eu cwblhau. Yn sgil profiad 2022/23, rydym wedi canolbwyntio ar ddangosyddion perfformiad sy'n canolbwyntio ar berfformiad yr Awdurdod ac nid ar weithgareddau y gall fod angen dibynnu ar bartïon eraill i'w cwblhau. Er enghraifft, roedd oedi y tu hwnt i'n rheolaeth wedi dylanwadu ar nifer y ceisiadau a gwblhawyd ar amser (63%) yn 2022/23. Roeddem naill ai wedi bodloni neu'n agos iawn at fodloni'r holl ddangosyddion perfformiad hynny a oedd yn mesur gweithgarwch a oedd yn ymwneud yn gyfan gwbl â mewnbynnau'r Awdurdod.

## Adolygiad ariannol

### Paratoi'r cyfrifon a throsolwg o'r cyfrifon

Mae cyfrifon yr Awdurdod yn cynnwys prif ddatganiadau sy'n darparu gwybodaeth gryno a nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau hyn yn cynnwys datganiad o wariant net cynhwysfawr, datganiad o'r sefyllfa ariannol, datganiad o lifau arian parod, a datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr.

Cafodd y cyfrifon eu paratoi yn unol â'r safonau a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

### Sut y caiff yr Awdurdod ei ariannu?

Daw arian refeniw'r Awdurdod o ddwy ffynhonnell: ar hyn o bryd, daw tua 20% i law ar ffurf cymorth grant gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a daw'r 80% arall o ffioedd trwydded o'r sector

preifat a'r sector cyhoeddus. Rydym hefyd yn cael sicrwydd heblaw arian parod ar gyfer taliadau tybiannol sy'n codi wrth i'n hasedau sefydlog ddibrisio ac amorteiddio.

Daw'r rhan fwyaf o'r incwm arall o gyfraniadau gan y Llywodraethau Datganoledig a thaliadau a godir am staff sydd ar secondiad y tu allan i'r sefydliad.

Rydym wedi cynhyrchu'r incwm sydd ei angen i dalu cost y gweithgareddau a drwyddedir gennym a gwnaethom weithio yn unol â'r gyllideb a bennwyd ar gyfer y flwyddyn.

Mae gennym fodel ffioedd cynhwysfawr sy'n ein galluogi i bennu ein ffioedd yn unol â'r llwyth gwaith rheoleiddio a dyrannu ein costau yn unol â'n gweithgareddau fel y nodir mewn deddfwriaeth.

## Crynodeb o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2023

| | | **2022/23** | **2021/22** |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£'000oedd** | £'000'oedd |
| **Incwm** | | | |
| Gan Lywodraethau datganoledig | | 134 | 134 |
| Ffioedd trwydded | | 4,285 | 4,079 |
| Incwm arall | (a) | 70 | 50 |
| **Cyfanswm yr Incwm** | | **4,489** | 4,263 |
| **Gwariant** | | | |
| Costau staff | | 3,738 | 3,500 |
| Costau gweinyddol cyffredinol a chostau nad ydynt yn rhai arian parod | | 1,204 | 1,394 |
| **Cyfanswm y gwariant** | | **4,942** | 4,894 |
| | | | |
| **(Gwariant) net ar gyfer y flwyddyn** | (b) | **(453)** | (631) |

(a) Yr incwm arall yw costau staff ar secondiad ac incwm o brosiect gan yr UE a gafodd ei ryddhau ar ddiwedd y prosiect.
(b) Mae'r gwariant net ar gyfer y flwyddyn yn adlewyrchu ein sefyllfa ariannol heb gynnwys y cymorth grant a gafwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r tabl isod yn dangos y cymorth grant refeniw a gafwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, er mwyn cyfrifo'r gwarged gweithredu net ar gyfer yr Awdurdod.

| **(Gwariant) / incwm net ar gyfer y flwyddyn** | **(b)** | **(453)** | **(631)** |
|---|---|---|---|
| **Cymorth Grant Refeniw** | (c) | **814** | 911 |
| **Cyfyngiadau gwariant adrannol adnoddau (RDEL) wedi'u clustnodi** | (d) | **78** | 56 |
| **Gwarged ar gyfer y flwyddyn** | | **439** | 336 |


(c) Caiff cymorth grant ei drin fel cyllid o fewn cyfrifon statudol ac mae'n ofynnol ei gofnodi fel hyn. Felly, nid yw cymorth grant wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar dudalen 67 o'r datganiadau ariannol ac mae wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar dudalen 70.
(d) Yn ogystal, cafodd yr Awdurdod £78k o sicrwydd ar gyfer ei wariant heblaw arian parod (dibrisio ac amorteiddio). Nid arian parod yw hwn ac felly ni ddangosir y sicrwydd yn y cyfrifon.

Yn erbyn y gwarged uchod, mae gennym wariant gweithredu o £4.9m. Roedd gennym gostau staff o £3.7m yn 2022/23, sydd 6.8% yn uwch na'r flwyddyn ddiwethaf ac maent yn adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y staff cyfwerth ag amser cyflawn a gyflogwyd.

Mae incwm o £4.3m o gontractau â chwsmeriaid (incwm ffioedd trwydded) 5.1% yn uwch na'n hincwm ffioedd yn 2021/22 (ychydig dros £4m), a 3.4% yn uwch na'r gyllideb. Mae'r cynnydd hwn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd yn nifer y trwyddedau yn y sector post-mortem a'r sector defnydd mewn bodau dynol.

Yn ystod 2022/23, sicrhaodd yr Awdurdod bod y symiau o gymorth grant a hawliwyd o fewn dyraniad arian parod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Cyfanswm y dyraniad arian parod a oedd ar gael ar gyfer gwariant refeniw a gwariant cyfalaf oedd £966k a £100k yn y drefn honno (2021/22 £911k a £100k). Mewn ymateb i'r adolygiadau o ddiwygiadau ac effeithlonrwydd a gynhaliwyd yn ystod chwarter tri o'r flwyddyn fusnes 2022/23, ildiwyd £150k o'r cymorth grant gennym.

## Dadansoddiad o wariant gros




*yn glir o ddarpariaeth

Mae'r graff hwn yn dangos lle rydym wedi gwario ein cyllid yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae ein costau staff bob amser wedi bod yn rhan sylweddol o'n gwariant ac maent yn adlewyrchu natur yr hyn a wnawn.

## Taliadau i gyflenwyr

Rydym yn anelu at dalu cyflenwyr o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn anfoneb ddilys. Ni wnaed unrhyw daliadau llog i gyflenwyr o dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998.

| Targed yr Awdurdod | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Gwneud 90% o daliadau o fewn 10 diwrnod i dderbyn anfoneb nad oes dadl yn ei chylch. | **Derbyniwyd 379 o anfonebau, y talwyd 329 (87%) ohonynt o fewn 10 diwrnod** | Derbyniwyd 502 o anfonebau, y talwyd 422 (83.6%) ohonynt o fewn 10 diwrnod |

Ni lwyddwyd i gyrraedd ein targed oherwydd problemau o ganlyniad i dderbyn anfonebau yn hwyr a oedd felly wedi effeithio ar amser estynedig i'w talu.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i'r Cod Ymarfer Talu'n Well a'i darged o wneud 95% o daliadau o fewn 30 diwrnod.

| Targed y Cod Ymarfer Talu'n Well | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| Gwneud 95% o daliadau o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb nad oes dadl yn ei chylch. | **Derbyniwyd 379 o anfonebau, y talwyd 379 (100%) ohonynt o fewn 30 diwrnod** | Derbyniwyd 502 o anfonebau, y talwyd 497 (99%) ohonynt o fewn 30 diwrnod |

## Cynnwys y staff a'i lesiant

Mae'r Awdurdod yn hysbysu aelodau o'r staff am faterion sefydliadol a rheoli a pholisïau. Trefnir galwad gyfnewid wythnosol a chynhelir diwrnodau i'r holl staff yn rheolaidd, o leiaf unwaith y chwarter. Rydym hefyd yn cynnal cyfarfodydd tîm wyneb yn wyneb yn rheolaidd er mwyn dod â'r staff ynghyd a hwyluso trafodaethau ynglŷn â'r materion diweddaraf/eitemau o newyddion a all effeithio ar yr Awdurdod. Drwy'r fforymau hyn gall y staff ddweud eu dweud a chael eu clywed. Mae'r cyfarfodydd i'r holl staff wedi cael derbyniad da. Yn ystod y diwrnod i'r holl staff ym mis Rhagfyr 2022, cymerodd y staff ran mewn trafodaeth i ddiwygio gwerthoedd yr Awdurdod sy'n llywio gwaith yr aelodau o'r staff a'u rhyngweithio â rhanddeiliaid. Gellir crynhoi'r gwerthoedd craidd diwygiedig hyn fel a ganlyn: **C**ydweithio, **B**od yn Agored, **P**arch, **Rh**agoriaeth.

Rydym yn parhau i geisio adborth drwy ddefnyddio arolygon ar-lein. Cafodd ein harolwg ymgysylltu a gynhelir ddwywaith y flwyddyn gyfradd ymateb o 81%. Roedd y rhan fwyaf o'n cydweithwyr yn teimlo cysylltiad â dibenion yr Awdurdod (89%) a'r rôl y maent yn ymgymryd â hi (97%). Roedd tua 92% yn teimlo eu bod yn cael y rhyddid i gyflawni eu hamcanion. Ymhlith y meysydd i'w harchwilio ymhellach roedd hyfforddiant a datblygu, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi / cydnabod a oedd wedi cael sgoriau o rhwng 60% a 70% a chyfathrebu, rheoli newid ac arweinyddiaeth a oedd wedi cael sgoriau tipyn yn is. Yn ystod 2022/23, rydym wedi bod yn gweithio ar y materion hyn gyda'r Ganolfan Arweinyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'n gwneud yn fwy effeithiol.

Mae ein ffocws ar lesiant bellach wedi ymsefydlu'n llawn fel rhaglen busnes arferol o ddigwyddiadau. Mae'r themâu misol wedi cynnwys eitemau megis: deall niwroamrywiaeth, dyslecsia ac awtistiaeth a chroesawu amrywiaeth o ran meddylfryd. Mae'r Awdurdod yn cynnal polisi iechyd a diogelwch cyfredol ac rydym yn nodi ein cyfrifoldebau yn y datganiad o fwriad. Mae'r Awdurdod wedi penodi swyddogion cymorth cyntaf a swyddogion tân ac wedi trefnu modiwlau hyfforddiant ac asesiadau ar-lein er mwyn sicrhau bod y staff yn gweithio mewn amgylchedd diogel sy'n gwarchod eu hiechyd. Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau iechyd a diogelwch yn ystod y flwyddyn.

## Dysgu a datblygu

Anogir y staff i baratoi cynlluniau datblygiad personol, ac mae hyn yn parhau'n rhan hanfodol o'n proses arfarnu. Mae tri math o raglen hyfforddiant: hyfforddiant corfforaethol, gan gynnwys hyfforddiant ar gydymffurfiaeth, hyfforddiant ar rolau penodol a'n cynllun buddsoddi mewn gyrfa.

Rydym yn cynnal rhaglen o hyfforddiant gorfodol bob chwarter sydd wedi cynnwys:

- Diogelu data
- Diogelwch gwybodaeth
- Twyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth
- Rheoli straen

Mae ein cynllun buddsoddi mewn gyrfa yn parhau, ac mae un aelod o'r staff wedi cael cymorth o dan y cynllun hwn yn 2022/23.

Mae'r staff hefyd wedi cynnal sesiynau hyfforddiant o'r enw “Cinio a Dysgu,” sy'n rhannu eu harbenigedd rhwng y sectorau rydym yn eu rheoleiddio a meysydd dysgu eraill. Gofynnir am

adborth y staff bob amser, gyda'r rhan fwyaf o'r staff sy'n cymryd rhan yn nodi bod y sgiliau a'r wybodaeth a geir mewn digwyddiadau o'r fath yn berthnasol i'w rolau.

## Deddf Cydraddoldeb 2010 – cydraddoldeb ac amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r Awdurdod yn gwbl ymrwymedig i gyfle cyfartal i'n cyflogeion presennol a darpar gyflogeion, ac wrth recriwtio aelodau o weithgorau. Rydym yn disgwyl i bawb sy'n gweithio i'r Awdurdod neu sy'n gwneud cais i weithio gyda'r Awdurdod neu sy'n gwneud cais i ymuno â grŵp o gynghorwyr allanol gael ei drin yn deg a'i werthfawrogi yn yr un modd.

Mae ein gwerthoedd yn gobeithio ei gwneud yn glir ein bod yn ymrwymedig i roi cyfle cyfartal i bob aelod o'r staff. Gwaherddir unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn pobl, oherwydd hil, anabledd, rhyw, hunaniaeth rhywedd, crefydd/cred, oedran, cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd warchodedig arall yn yr Awdurdod, ac rydym yn ceisio sicrhau bod yr Awdurdod yn cadw at yr holl reoliadau statudol ynglŷn â hawliau dynol a gwahaniaethu. Rydym yn monitro ein perfformiad yn y maes hwn o bryd i'w gilydd, a chaiff adroddiadau eu trafod mewn cyfarfodydd rheoli. Caiff unrhyw bolisïau newydd, a'r rhai sydd i'w hadolygu, eu hystyried o safbwynt asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Rydym yn cydnabod bod sicrhau cyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal yn gyfrifoldeb ar bawb. Rydym yn ymwybodol ein bod yn sefydliad bach o ran rhai grwpiau nodweddion gwarchodedig, ac felly rydym wedi cyfarfod â chyrff hyd braich eraill ym maes iechyd er mwyn trafod sut i rannu adnoddau a mentrau i gefnogi gweithgarwch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae ein Prif Weithredwr wedi cadeirio sawl cyfarfod o'r Cyd-fforwm Amrywiaeth ar gyfer Redman Place sy'n cynrychioli pob corff hyd braich ar yr ail lawr (CQC, HFEA, HRA, NICE, yn ogystal â'r Awdurdod ei hun). Diben y grŵp hwn yw ein hannog a'n galluogi i sicrhau manteision maint a rhannu a mabwysiadu arferion gorau drwy'r rhwydwaith cyfan. Bydd cyfle hefyd i ymuno â grwpiau cymorth i gydweithwyr. Drwy hyn bydd modd i'r Awdurdod roi cymorth ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig.

## Cyflogeion anabl

Mae gennym bolisi penodol o wahodd unrhyw ymgeisydd ag anabledd sy'n bodloni meini prawf hanfodol i gael cyfweliad. Rhoddir cymorth i bob aelod o'r staff sydd ag anabledd neu sy'n datblygu anabledd, gan gynnwys gwneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r gweithle neu brosesau gwaith a sicrhau bod cyngor ar gael drwy'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol. Rydym yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn y gyfraith neu unrhyw ddyfarniadau gan dribiwnlysoedd a all effeithio ar ein polisïau. Y diweddaraf yw ystyried symptomau menopos fel anabledd. Er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r mater hwn ac yn ei ddeall, rydym wedi cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth drwy ein sesiynau “cinio a dysgu”.

Anabledd – o'r 58 o aelodau o'r staff a wnaeth ddatganiad, mae un yn cofnodi ei hun yn berson anabl ac ni ddatgelodd 26 anabledd. Rhoddir dadansoddiad o nodweddion eraill yr holl staff ar 31 Mawrth 2023 yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff ar dudalennau 52 - 53.

## Undebau Llafur

O dan Reoliadau'r Undebau Llafur (Gofynion Cyhoeddi Amser Cyfleuster) 2017, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ddatgelu nifer y staff, cost a'r amser a dreulir gan gyflogai sy'n swyddog undebol perthnasol ar amser cyfleuster os yw'r Awdurdod yn bodloni meini prawf penodol.

Nid yw'r Awdurdod yn cyflogi unrhyw staff sy'n neilltuo amser ar gyfer undeb llafur.

## Materion cynaliadwyedd ac amgylcheddol

Mae'r Awdurdod wedi'i leoli mewn ardal fach ar ail lawr adeilad a rennir yn Llundain. Mae ein landlordiaid yn darparu gwasanaethau ac yn annog ymddygiad sy'n bodloni gofynion o ran cynaliadwyedd. Mae hyn yn cynnwys ailgylchu, effeithlonrwydd ynni a chyfleusterau eraill. Mae'r holl ymdrechion i addasu ein hamgylchedd gwaith at newid yn yr hinsawdd yn dibynnu ar ein landlord. Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn bwriadu cydweithio â'r tenantiaid eraill ar ein llawr i gasglu data perthnasol lle y bo modd. Y tabl isod yw ein man cychwyn, ac rydym yn bwriadu adeiladu ar hyn.

| | 2022-23 | 2022-23 |
|---|---|---|
| **Cyfanswm $tCO_2e$[1]** | **km a deithiwyd** | **Tunelli $CO_2e$** |
| Ddim yn ymwneud â fflyd | 39,592 | 6.73 |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus – Hedfan | 18,030 | 2.34 |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus – Rheilffyrdd | 114,826 | 4.08 |

Rydym yn ymwybodol o'r agenda werdd mewn perthynas â chaffael ac rydym yn defnyddio Gwasanaeth Masnachol y Goron a fframweithiau eraill sy'n ystyriol o gynaliadwyedd.

| | 2022-23 | 2021-22[2] | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwybodaeth ariannol** | **Rheilffyrdd** | **Rheilffyrdd** | **Hedfan** | **Hedfan** |
| Gwariant | £51,505 | £6,562 | £7,824 | £1,293 |
| Nifer y trafodiadau/teithiau hedfan | 663 | 102 | 32 | 9 |

Caiff Staff ac Aelodau eu hannog i deithio ar fusnes yr Awdurdod yn y ffordd fwyaf cynaliadwy a chosteffeithiol. Rydym hefyd yn aelod o'r cynllun Beicio i'r Gwaith, sy'n cynnig cymhellion effeithlon o ran treth ac mae cyfleusterau beicio yn ein swyddfeydd.

[1] Daw'r ffigurau yn y tabl o ddata a gyflwynwyd i'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel rhan o gylch adrodd yr Ymrwymiad i Wyrddu'r Llywodraeth.

[2] Oherwydd pandemig COVID-19, ataliwyd teithio dros dro am hanner cyntaf y flwyddyn.



**Dr Colin Sullivan**
**Prif Weithredwr**
**Swyddog Cyfrifyddu** **19 Gorffennaf 2023**

# Adroddiad Atebolrwydd

# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Y Bwrdd

Mae ein Bwrdd yn cynnwys 12 o Aelodau (gan gynnwys y Cadeirydd) a benodir drwy broses gyhoeddus agored. Ar 31 Mawrth 2023 roedd naw Aelod o'r Bwrdd. Gadawodd aelod arall ym mis Ebrill 2022. Nodir isod Aelodau'r Awdurdod yn ystod 2022/23 Mae bywgraffiadau'r holl aelodau presennol ar ein gwefan.

| Aelod o'r Awdurdod | Rôl | Dyddiad dechrau'r penodiad | Dyddiad gorffen y penodiad |
|---|---|---|---|
| **Lynne Berry CBE** | Cadeirydd y Bwrdd | 18 Tachwedd 2019 | 17 Tachwedd 2022 (a estynnwyd i fis Tachwedd 2025) |
| **Yr Athro Deborah Bowman** | Aelod o'r Bwrdd | 4 Ionawr 2021 | 3 Ionawr 2024 (a estynnwyd i fis Ionawr 2027) |
| **Tom Chakraborti** | Aelod o'r Bwrdd | 1 Ebrill 2022 | 31 Mawrth 2025 |
| **Yr Athro Gary Crowe** | Aelod o'r Bwrdd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | 1 Medi 2019 | 1 Medi 2022 (a estynnwyd i fis Medi 2025) |
| **Helen Dodds** | Aelod o'r Bwrdd | 1 Ebrill 2022 | 31 Mawrth 2025 |
| **Ellen Donovan** | Aelod o'r Bwrdd | 1 Ebrill 2021 | 31 Mawrth 2024 |
| **Dr Andy Greenfield** | Aelod o'r Bwrdd | 1 Ebrill 2022 | 31 Mawrth 2025 |
| **Dr Charmaine Griffiths** | Aelod o'r Bwrdd | 1 Medi 2019 | 31 Awst 2022 (daeth ei phenodiad i ben) |
| **Glenn Houston** | Aelod o'r Bwrdd | 5 Mai 2015 | 30 Ebrill 2022 (daeth ei benodiad i ben) |
| **David Lewis** | Aelod o'r Bwrdd | 1 Ebrill 2022 | 31 Mawrth 2025 |

Mae bywgraffiadau'r Aelodau ar wefan yr Awdurdod: https://www.hta.gov.uk/about-hta/meet-our-board-and-executive-team

## Uwch Dîm Rheoli

Nodir isod ein Prif Weithredwr a'n Cyfarwyddwyr yn ystod 2022/23 ac ar 31 Mawrth 2023.

| Uwch-reolwyr | Swydd |
|---|---|
| **Dr Colin Sullivan** | Prif Weithredwr |
| **Richard Sydee** | Cyfarwyddwr Adnoddau (a ymddiswyddodd ar 16 Mehefin 2023) |
| **Nicolette Harrison** | Cyfarwyddwr Rheoleiddio |
| **Louise Dineley** | Cyfarwyddwr Data, Technoleg a Datblygu |
| **John McDermott** | Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Llywodraethu Corfforaethol (a benodwyd 1 Awst 2022) |

## Buddiannau Aelodau'r Bwrdd ac uwch-staff

Mae'r Awdurdod yn cynnal cofrestr o fuddiannau. Mae pob Aelod o'r Bwrdd a phob aelod o'r staff yn datgan unrhyw rolau cyfarwyddwr cwmni a buddiannau perthnasol eraill sydd ganddynt hwy neu eu teulu agos a'u ffrindiau a all wrthdaro â'u cyfrifoldebau yn yr Awdurdod.

Caiff achosion posibl o wrthdaro buddiannau eu rheoli gan holl Aelodau'r Bwrdd a'r staff, drwy ddatgan unrhyw rolau cyfarwyddwr cwmni a buddiannau perthnasol eraill sydd ganddynt hwy neu eu teulu agos a'u ffrindiau a all wrthdaro â'u cyfrifoldebau yn yr Awdurdod yn y gofrestr o fuddiannau.

Mae'r Aelodau hefyd yn datgan eu buddiant mewn unrhyw eitemau a drafodir yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu a oes unrhyw wrthdaro buddiannau ac a ddylai'r aelod dan sylw barhau i gymryd rhan yn y drafodaeth.

Cyhoeddir buddiannau'r Aelodau ar ein gwefan https://www.hta.gov.uk/about-hta/committees-and-working-groups/authority-board

## Pensiynau

Darperir buddiannau pensiwn drwy Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn. Ceir manylion llawn yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff a nodyn 1.11 o'r cyfrifon.

## Digwyddiadau data

Nodir trefniadau ar gyfer diogelwch data ac unrhyw ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

## Ein harchwilwyr

Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol cyfrifon yr Awdurdod. Talwyd £36,000 mewn cydnabyddiaeth i'r archwilydd allanol yn 2022/23. Ni aed i unrhyw ffioedd am waith nad oedd yn waith archwilio.

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyfarwyddo'r HTA i baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiad o gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r HTA ac o'i hincwm a gwariant, Datganiad o Sefyllfa Ariannol a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a baratoir gan Drysorlys EF, ac yn enwedig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, yn cynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw amrywiadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol er mwyn penderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Swyddog Cyfrifyddu'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Awdurdod Meinweoedd Dynol, gyda chyfrifoldeb am baratoi cyfrifon yr Awdurdod a'u trosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra y cyllid cyhoeddus y mae Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, a'r cyfrifoldeb am gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Awdurdod yn y Memorandwm i Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF.

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi ei gymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr Awdurdod yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

## Cyfarwyddyd cyfrifon

Mae'r Cyfrifon Blynyddol wedi'u paratoi a'u cyhoeddi gan yr HTA, o dan gyfarwyddiadau a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM, yn unol ag Atodlen 2 (paragraff 16) o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004. Mae cyfrifon yn adrodd ar yr adnoddau a ddefnyddiwyd gan yr HTA i gyflawni ei amcanion. Mae'r Cyfrifon Blynyddol hyn wedi'u paratoi yn unol â'r canllawiau a nodir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) 2022/23.

## Datganiad yr Awdurdod

Mae Uwch Dîm Rheoli'r Awdurdod wedi cyfrannu at y ddogfen hon. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, ar ran yr Awdurdod, wedi adolygu'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

# Datganiad llywodraethu

## Cwmpas y cyfrifoldeb

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr Awdurdod a hefyd ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a'r asedau adrannol y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol yn bersonol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr Awdurdod yn cael ei weinyddu mewn ffordd ddoeth a darbodus a bod adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol.

## Fframwaith llywodraethu

Mae'r Awdurdod yn rheoleiddiwr annibynnol a sefydlwyd yn 2005 yn sgil digwyddiadau yn y 1990au a ddatgelodd achosion o dynnu a chadw organau a meinweoedd dynol heb gydsyniad. Gwnaeth y ddeddfwriaeth a sefydlodd yr Awdurdod nid yn unig ymdrin â'r mater hwn ond hefyd ddiweddaru cyfreithiau eraill sy'n ymwneud â meinweoedd ac organau dynol a'u dwyn ynghyd. Sefydlwyd yr Awdurdod o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 fel un o gyrff hyd braich yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae'n cael ei oruchwylio gan Fwrdd a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gydag un aelod yn cael ei ddewis gan Weinidog Iechyd Cymru ac aelod arall gan Adran Iechyd Gogledd Iwerddon.

Mae Ysgrifennydd Parhaol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn enwebu Uwch-noddwr Adrannol sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt cyson dynodedig yr Awdurdod o fewn yr Adran. Mae'n gweithredu fel dolen gyswllt ar lefel weithredol rhwng yr Awdurdod ac uwch-swyddogion yr Adran a Gweinidogion. Mae hefyd yn helpu'r Ysgrifennydd Parhaol i ddwyn yr Awdurdod i gyfrif ac i roi sicrwydd ynglŷn â'i berfformiad.

Mae tîm noddwr adrannol yn cefnogi'r Uwch-noddwr Adrannol drwy fod yn brif gyswllt o ddydd i ddydd rhwng yr Adran a'r Awdurdod.

## Ein bwrdd (Yr Awdurdod)

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y sefydliad a'i barodrwydd i dderbyn risg, a'r bwrdd yw'r corff gwneud penderfyniadau lefel uchaf ar gyfer materion sydd o bwys rheoleiddio strategol i'r Awdurdod cyfan neu sy'n bwysig o ran ei enw da. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol yn hwyluso'r broses o gyflawni diben a strategaeth yr Awdurdod. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig, drwy ei fframwaith llywodraethu, i wneud penderfyniadau priodol ar y lefel gywir o fewn yr Awdurdod, gan sicrhau bod atebolrwydd, gwerth ychwanegol yn yr hirdymor, a chyflawni ein diben o hyrwyddo buddiannau'r adran sy'n ein noddi a'n rhanddeiliaid.

Mae'r Bwrdd (bwrdd anweithredol statudol yr Awdurdod) yn cynnwys 12 o aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd a benodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac eithrio un aelod a benodir gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

ac un gan yr Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon. Penodir aelodau am gyfnod o dair blynedd i ddechrau.

Ar hyn o bryd, mae wyth aelod penodedig, gyda phedair swydd wag, sy'n cynnwys yr aelod dros Ogledd Iwerddon.

## Ceir manylion am bresenoldeb aelodau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau isod.

| Aelodau'r Bwrdd | Cyfarfodydd y Bwrdd | Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | Pwyllgor Cydnabyddiaeth |
|---|---|---|---|
| Lynne Berry (Cadeirydd) | 3 (4)[3] | Dd/g | 2 (2) |
| Yr Athro Gary Crowe (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd) | 4 (4) | 3 (3) | Dd/g |
| Glenn Houston[4] | 0 (4) | Dd/g | Dd/g |
| Dr Charmaine Griffiths[5] | 2 (2) | Dd/g | Dd/g |
| Yr Athro Deborah Bowman | 3 (4) | Dd/g | 2 (2) |
| Ellen Donovan | 4 (4) | Dd/g | 2 (2) |
| Helen Dodds | 4 (4) | 3 (3) | Dd/g |
| Dr Andy Greenfield | 4 (4) | Dd/g | Dd/g |
| Tom Chakraborti | 4 (4) | Dd/g | Dd/g |
| David Lewis | 3 (4) | 3 (3) | 2 (2) |

Caiff y Bwrdd ei gynghori gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol, sef: Prif Weithredwr; Cyfarwyddwr Adnoddau; Cyfarwyddwr Rheoleiddio; Cyfarwyddwr Data, Technoleg a Datblygu; a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Llywodraethu Corfforaethol.

Cyfarfu'r Bwrdd bedair gwaith yn ystod 2022/23 ac roedd un o'r cyfarfodydd hyn yn agored i'r cyhoedd gyda phapurau'r Bwrdd ar gael ar ein gwefan. Yn y dyfodol, bydd yn cyfarfod bum gwaith y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn monitro ac yn adolygu perfformiad y sefydliad yn rheolaidd, yn seiliedig ar friffiadau o wybodaeth reoli a sylwadau gan y Tîm Gweithredol.

### Bywgraffiadau Aelodau'r Bwrdd

Mae bywgraffiadau Aelodau'r Bwrdd ar gael yn https://www.hta.gov.uk/about-hta/our-board-and-committees/authority-board/meet-our-board-and-executive-team

[3] Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn nodi nifer y cyfarfodydd roedd yr aelod yn gymwys i'w mynychu.
[4] Daeth cyfnod Glenn Houston yn ei rôl i ben ym mis Ebrill 2022, felly ni fynychodd unrhyw gyfarfodydd
[5] Ymddiswyddodd Dr Charmaine Griffiths o'r Bwrdd ar 31 Awst 2022

**Gweinyddu'r Bwrdd**

Y Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Llywodraethu Corfforaethol sy'n gyfrifol am weinyddu'r Bwrdd, gyda chymorth Arweinydd y Swyddfa Breifat ac Ysgrifennydd y Bwrdd, sy'n cynnal prif weithdrefnau a pholisïau'r Bwrdd a chofnodion corfforaethol a chylchoedd gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd ac yn sicrhau eu bod yn gyfredol. Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn cynnal Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod.

## Perfformiad y Bwrdd a'i bwyllgorau

**Ansawdd y wybodaeth a ddefnyddir gan y Bwrdd**

Mae aelodau'r Bwrdd yn derbyn papurau wythnos cyn y cyfarfodydd penodedig. Cynhaliwyd tri o'r cyfarfodydd yn ystod 2022/23 wyneb yn wyneb (gyda'r opsiwn o ffonio i mewn) a chynhaliwyd y pedwerydd cyfarfod ddrwy ddulliau rhithwir. Yn y dyfodol, mae'r Bwrdd wedi nodi ei fod am barhau i gyfarfod wyneb yn wyneb ar gyfer cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd. Cafodd cyfarfodydd y Bwrdd eu cadeirio'n effeithlon, lle roedd her a thrafodaeth yn cael eu hannog. Mae papurau'r Bwrdd wedi dilyn templed safonol er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysfawr, gan ystyried pob un o'r dibyniaethau megis cyllid, risg, gofynion digidol, sut maent yn cael eu cyflwyno a'u trin. Wrth greu papurau'r Bwrdd maent yn mynd drwy broses fanwl, sydd wedi cael ei hadolygu a'i gwella. Mae hyn yn cynnwys datblygu papurau “braslun” i ddechrau, sy'n nodi strwythur a diben y papur. Yna, caiff y cynigion cychwynnol eu llunio'n ddrafftiau cyntaf a therfynol gan y Tîm Gweithredol. Mae'r broses hon a gynhelir gan yr Uwch Dîm Rheoli yn arwain at bapurau cadarn ac mae wedi bod yn fodd i aelodau'r Bwrdd wneud penderfyniadau cadarn.

**Trafodaethau'r Bwrdd**

Yn ystod y flwyddyn fusnes 2022/23, trafododd y Bwrdd nifer o faterion gwahanol a chafodd y wybodaeth ddiweddaraf am sawl darn o waith, gan gynnwys:

- Gweithgarwch cyflawni gweithredol, yn benodol diweddariadau ar nifer yr arolygiadau a cherrig milltir eraill; trosolwg data diwygiedig sy'n rhoi manylion am ddigwyddiadau a chynlluniau Gweithredu Cywirol ac Ataliol. Defnyddir yr olaf i fynd i'r afael â diffygion a nodir yn ystod arolygiadau.
- Gwybodaeth am berfformiad, gan gynnwys perfformiad ariannol gyda ffocws ar ffioedd trwydded heb eu talu a risgiau;
- adolygiad yr Awdurdod o ffioedd a chynigion ar gyfer y flwyddyn fusnes 2023/24;
- Strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu a gymeradwywyd yn ystod chwarter un o'r flwyddyn fusnes hon;
- Cyflwynwyd diweddariadau ar yr Ymchwiliad Annibynnol Llawnach a'r cyngor a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol;

- Effaith rheolaethau gwario ar wariant ar ymgynghoriaeth, gwasanaethau proffesiynol a llafur amharhaol;
- Diweddariadau ar yr archwiliad o'r Pecyn Cymorth Amddiffyn a Diogelu Data a chynnydd tuag at gynnig tystiolaeth;
- Cytundeb fframwaith wedi'i ddiweddaru rhwng yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Awdurdod (Mehefin 2022);
- Cydsyniad tybiedig yng Ngogledd Iwerddon – canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar newidiadau arfaethedig i'r Cod Ymarfer F, Rhan dau. Cytunodd y Bwrdd ar newidiadau i'r cod hwn ar ddiwedd y flwyddyn fusnes 2021/22;
- Sganio'r gorwel; cynnwys y Bwrdd yn y broses hon a'r materion sy'n deillio o'r gwaith a wnaed;
- Risgiau strategol a ailddiffiniwyd ac adolygiad o ddatganiad y Bwrdd ar ei barodrwydd i dderbyn risg;
- Cydwasanaethau – diweddariadau ar gynnydd i ddarpar bartneriaid ym maes Adnoddau Dynol a TG;
- Cynnydd ar ein gwaith datblygu sefydliadol gyda'r Ganolfan Arweinyddiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (nod y rhaglen yw gwella ein heffeithiolrwydd o ran cyflawni a'n heffeithiolrwydd sefydliadol);
- Diweddariadau ym maes digidol, data a thechnoleg, ac effaith heriau recriwtio ar ddarparu model cydwasanaethau, sydd hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith ar y Pecyn Cymorth Amddiffyn a Diogelu Data a'r archwiliadau ohono;
- Diweddariadau ar ein rhaglen ddatblygu – ymhlith y materion allweddol a drafodwyd roedd diffyg adnoddau arbenigol ac effaith hynny. Cytunodd y Bwrdd i atal y rhaglen dros dro er mwyn adolygu ffocws a strwythur presennol y rhaglen;
- Yr heriau a wynebir ar hyn o bryd o ran recriwtio a chadw staff, gan gynnwys adborth o'r arolwg ymgysylltu;
- Cytuno ar y cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn fusnes 2023/24;
- Diweddariadau gan y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'u gweithgareddau.

### Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn cynnwys pedwar aelod bwrdd ac yn rhoi barn annibynnol i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd am reolaethau mewnol y sefydliad, ei effeithiolrwydd gweithredol, ei drefniadau llywodraethu a rheoli risg. Mae hyn yn cynnwys trosolwg o wasanaethau archwilio mewnol ac allanol, rheoli risg a gweithgareddau atal twyll. Mae'r pwyllgor wedi'i awdurdodi i ymchwilio i unrhyw weithgarwch sydd o fewn ei gylch gorchwyl a cheisio unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno gan unrhyw gyflogai. Gall geisio cyngor proffesiynol cyfreithiol neu annibynnol a sicrhau presenoldeb arbenigwyr allanol.

Cyfarfu'r pwyllgor deirgwaith yn ystod 2022/23. Ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn, roedd nifer o eitemau sefydlog ar yr agenda. Mae'r rhain yn cynnwys datganiadau am unrhyw dwyll neu golled a nodwyd, gan gynnwys unrhyw ddata a gollwyd a diweddariadau ar risgiau strategol.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y pwyllgor hefyd adroddiadau ar nifer o faterion priodol eraill a oedd o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd y rhain yn cynnwys cynlluniau ac adroddiadau archwilio mewnol, diweddariadau ar seiberddiogelwch a dangosfyrddau; diweddariad ar hynt yr asesiadau o'r Pecyn Cymorth Amddiffyn a Diogelu Data a'r ymatebion iddo; polisi rheoli risg, gan gynnwys datganiad diwygiedig ar barodrwydd i dderbyn risg; cynlluniau digwyddiadau critigol a pharhad busnes ac adfer ar ôl trychineb.

Adolygodd y pwyllgor drefniadau atal twyll yr Awdurdod, yng nghyd-destun fframwaith atal twyll Swyddfa'r Cabinet, a'r strategaeth atal twyll a'r asesiadau risg o dwyll, er mwyn bodloni ei hun bod trefniadau priodol ar waith. Hefyd, cafodd y pwyllgor ddiweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â Safonau Swyddogaethol – y rhai sy'n gymwys i'r Awdurdod – a chytunodd ar y dull gweithredu cymesur a oedd wedi cael ei fabwysiadu.

Yn 2022/23, cafodd y pwyllgor adroddiadau archwilio mewnol a oedd yn ymdrin â'r meysydd a nodir isod:

- Rhoi organau byw – yn rhoi barn annibynnol ar effeithiolrwydd proses yr Awdurdod ar gyfer cymeradwyo rhoi organau, a chadernid ein hadolygiadau mewnol ein hunain a gynhaliwyd mewn ymateb i achos cyfredol.
- Proses ariannol Cofnodi i Adrodd – yn rhoi sicrwydd ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd y prosesau Cofnodi i Adrodd sydd ar waith.
- Rheoli Cofnodion – yn rhoi sicrwydd bod polisïau a gweithdrefnau rheoli cofnodion yr Awdurdod yn ddigonol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'i rwymedigaethau statudol.
- Pecyn Cymorth Amddiffyn a Diogelu Data – Asesu risg i amddiffyn a diogelu data; asesiad o ddilysrwydd hunanasesiad yr Awdurdod/yr hyn a gyflwynwyd fel rhan o'r Pecyn Cymorth Amddiffyn a Diogelu Data.
- Mesur Perfformiad – yn asesu digonolrwydd y trefniadau adrodd ar berfformiad sydd ar waith yn yr Awdurdod a'r graddau y maent yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun strategol.

Mae'r archwilwyr mewnol a'r Uwch Dîm Rheoli wedi cytuno ar argymhellion i gymryd camau adferol a gwneud gwelliannau newydd yn deillio o bob un o'r adroddiadau hyn, ac mae'r cynnydd o ran cwblhau'r argymhellion hyn yn cael ei fonitro ar y cyd gan yr Uwch Dîm Rheoli bob mis drwy ein proses rheoli portffolio newydd ei chyflwyno. O ganlyniad, yn ystod 2022/23, rydym wedi lleihau nifer yr argymhellion a oedd yn weddill a'r amser i'w cwblhau gryn dipyn.

## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Fel gyda'r rhan fwyaf o is-bwyllgorau cydnabyddiaeth, mae cylch gwaith Pwyllgor Cydnabyddiaeth yr Awdurdod wedi cael ei gyfyngu i oruchwylio cydnabyddiaeth Prif Weithredwr a staff yr Awdurdod. Fodd bynnag, ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn ei gyfarfod ym mis Mai 2022, cytunodd y Bwrdd i ehangu cylch gwaith y pwyllgor. Mae wedi cael ei ehangu i gynnwys y strategaeth gydnabyddiaeth a hefyd i fod yn fforwm i drafod materion ”pobl” ehangach. Mae'r maes olaf yn ymwneud â chynghori'r Prif Swyddog Gweithredol, sydd â chyfrifoldeb gweithredol, yn hytrach na chyfrifoldeb i wneud penderfyniadau.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys pedwar aelod, gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd, ond caiff ei gadeirio gan aelod arall. Cyfarfu'r pwyllgor deirgwaith yn 2022/23.

## Uwch Dîm Rheoli

Arweinir Uwch Dîm Rheoli'r Awdurdod gan y Prif Weithredwr, Dr Colin Sullivan (Swyddog Cyfrifyddu), sy'n gyfrifol am gyflawni yn unol â'r cyfeiriad polisi a bennir gan y Bwrdd. Cefnogir y Prif Weithredwr gan dri chyfarwyddwr a dirprwy gyfarwyddwr, fel y'i nodir isod:

| | |
|---|---|
| Richard Sydee (a benodwyd ym mis Tachwedd 2016)[6] | **Cyfarwyddwr Adnoddau** |
| Nicolette Harrison (a benodwyd ym mis Mehefin 2018) | **Cyfarwyddwr Rheoleiddio** |
| Louise Dineley (a benodwyd ym mis Tachwedd 2019) | **Cyfarwyddwr Data, Technoleg a Datblygu** |
| John McDermott (a benodwyd ym mis Awst 2022) | **Dirprwy Gyfarwyddwr Perfformiad a Llywodraethu Corfforaethol** |

Yr Uwch Dîm Rheoli yw corff gwneud penderfyniadau'r Awdurdod, sy'n gyfrifol am arwain a chyflawni nodau ac amcanion strategol yr Awdurdod. Caiff ei gefnogi gan wyth Pennaeth Gwasanaeth, sy'n gyfrifol ar y cyd am y busnes corfforaethol o ddydd i ddydd.

Hefyd, mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn cyfarfod bob pythefnos fel y Tîm Cyflawni Busnes. Yn y cyfarfodydd hyn trafodir materion tactegol a strategol, cyn iddynt gael eu huwchgyfeirio at yr Uwch Dîm Rheoli. Mae'r prif feysydd ffocws yn cynnwys datblygu a chyflawni'r cynllun busnes blynyddol a'r defnydd o'r adnoddau cysylltiedig a rheoli risg.

## Llywodraethu Corfforaethol

Mae gennym gytundeb fframwaith â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n diffinio'r elfennau hollbwysig o'n cydberthynas â hi. Mae'r cytundeb yn amlinellu'r ffordd rydym yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r ffordd y mae'r naill a'r llall yn cyflawni ein cyfrifoldebau atebolrwydd yn effeithiol. Mae'r Uwch-noddwr Adrannol yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyfarfod â'r Prif Weithredwr mewn cyfarfod atebolrwydd ffurfiol bob chwarter ac yn anffurfiol yn ystod y flwyddyn. Mae'r Uwch-noddwr Adrannol hefyd yn cyfarfod â'r Cadeirydd yn rheolaidd ac yn cytuno ar ei hamcanion blynyddol ac yn monitro'r ffordd y cânt eu cyflawni. Hefyd, mae aelodau'r Uwch Dîm Rheoli yn cyfarfod â swyddogion eraill yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol bob chwarter, ac yn ôl y gofyn wrth i faterion godi. Mae cynrychiolwyr o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd yn bresennol fel arsyllwyr yng nghyfarfodydd Bwrdd yr Awdurdod ac yn y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

[6] Cafodd Richard Sydee ei secondio i'r Awdurdod o'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol am 50% o'i amser.

Nodir yr amcanion gweithredol sy'n ein helpu i gyflawni ein strategaeth gorfforaethol yn ein cynllun busnes blynyddol. Caiff drafftiau o'r ddogfen hon eu rhannu â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ymlaen llaw. Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cymeradwyo'r cynllun busnes a chaiff gwybodaeth fonitro ei chyflwyno bob chwarter i'r adran hefyd. Ynghyd â'r cyfarfodydd â'r Uwch-noddwr Adrannol a swyddogion eraill yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, mae hyn yn rhoi sicrwydd bod yr Awdurdod ar y trywydd cywir o ran cyflawni ei amcanion.

Mae ein system o lywodraethu corfforaethol yn cydymffurfio â gofynion 'Corporate governance in central Government departments: code of good practice[7],' i'r graddau y maent yn berthnasol i gyrff hyd braich. Ei nod yw sicrhau bod goruchwyliaeth ddigonol o faterion gweithredol gan ein Bwrdd a'n Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, a hefyd sicrhau atebolrwydd clir a systemau rheolaeth fewnol ar lefel weithredol ar yr un pryd. Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â darpariaethau'r cod ac eithrio'r canlynol:

- 4.7 – yn lle'r Ysgrifennydd Parhaol, mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod yn rhannu'r cyfrifoldeb hwn.
- 4.11 – yn lle Ysgrifennydd y Bwrdd, mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod ac Arweinydd y Swyddfa Breifat yn gyfrifol a
- 5.5 – dim ond cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd a fynychir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.

## Rheoli Perfformiad

Mae cysylltiad agos rhwng ein fframwaith rheoli perfformiad a rheoli risg. Mae'n cynnwys adroddiadau o bryd i'w gilydd ar lefelau gwahanol o fanylder mewn pecynnau perfformiad i'r Bwrdd, yr Uwch Dîm Rheoli a rhai o'n pwyllgorau.

Mae'r adroddiadau hyn ar berfformiad yn cwmpasu'r canlynol:

- gwybodaeth ariannol ac anariannol, risgiau a materion allweddol, ac asesiad o gyflawni yn erbyn ymrwymiadau strategol;
- cyflawni'r cynllun busnes ar lefel gorfforaethol ac ar lefel weithredol;
- gwaith arall, megis cyflawni prosiectau a rhaglenni penodol.

Mae ein fframwaith perfformiad wedi cael ei ailwampio'n llwyr ar ôl COVID-19. Rydym wedi cyflwyno proses rheoli portffolio well fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad diwygiedig. Mae dangosyddion perfformiad allweddol a dangosyddion perfformiad unigol hefyd wedi cael eu newid yn unol â'r dull o fesur a rheoli perfformiad ar sail portffolio.

[7] https://www.gov.uk/government/publications/corporate-governance-code-for-central-government-departments-2017

Fel Prif Weithredwr, caf sicrwydd bod y trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheolaeth fewnol yn gadarn ac yn addas at y diben, a'u bod yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn dysgu unrhyw wersi a gwella'n barhaus.

## Adolygiadau blynyddol o effeithiolrwydd pwyllgorau

Cynhaliodd y Bwrdd adolygiad o effeithiolrwydd ym mis Ionawr 2023 yn seiliedig ar holiadur y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n dilyn cod arferion da Trysorlys EF ar lywodraethu corfforaethol yn adrannau llywodraeth ganolog.

Roedd yr holiadur wedi'i drefnu o dan y penawdau canlynol:

- Ethos a Dull Gweithredu'r Bwrdd
- Trefniadaeth Cyfarfodydd y Bwrdd
- Rheoli Risg
- Y gydberthynas â'r Tîm Gweithredol a rhanddeiliaid allweddol
- Myfyrdodau eraill

Ym mis Mawrth 2023, trafododd y Bwrdd y canlyniadau, gan gytuno ar gynllun gweithredu i ymdrin â meysydd datblygu ar gyfer gwella.

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ei adolygiad o effeithiolrwydd yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023, gan ddefnyddio adnodd effeithiolrwydd Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a chaiff yr adborth ei drafod yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2023.

## Rheoli Risg

Mae ein system o reoli risg yn fewnol yn rhoi sicrwydd bod y risgiau a wynebwn wrth arfer ein swyddogaethau statudol yn cael eu rheoli'n briodol a'u lliniaru mewn ffordd gymesur.

Mae'r Awdurdod yn rheoli risg drwy ddefnyddio cofrestrau risg. Mae'r rhain yn cynnwys y gofrestr strategol sy'n cael ei rheoli gan yr Uwch Dîm Rheoli a chofrestrau risg gweithredol cyfarwyddiaethau, lle mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn gyfrifol am risgiau. Ar lefel rhaglenni a phrosiectau, caiff cofnodion risg eu cynnal. Ar hyn o bryd, caiff y gofrestr risg strategol ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn monitro'r risgiau allweddol i gyflawni ein hamcanion strategol.

## Proses risg

Datgelir ein prif risgiau yn 2022/23 yn yr adroddiad ar berfformiad o dan risgiau sy'n effeithio ar gyflawni ein hamcanion ar dudalennau 14-16. Fel rhan o'r broses o nodi'r risgiau hyn mae'r Tîm Gweithredol yn sganio'r gorwel bob blwyddyn, ac yn uwchgyfeirio materion fel y bo'n briodol drwy gydol y flwyddyn.

## Diogelwch gwybodaeth a chwythu'r chwiban

Mae'r Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth yn gyfrifol am reoli risg gwybodaeth ar ran y Swyddog Cyfrifyddu a'r Bwrdd, ac am roi'r sicrwydd angenrheidiol.

Mae unrhyw ddata a gofnodir ar lwyfannau digidol yr Awdurdod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau deddfwriaethol penodol, Deddf Diogelu Data 2018 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Caiff mynediad defnyddwyr ei reoli'n gaeth, a chaiff cofnodion treialon eu cadw at ddibenion gwiriadau diogelwch ac archwilio. Ymdrinnir â cheisiadau am wybodaeth drwy gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Mae'n rhaid cael cytundeb yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth i unrhyw ofynion gweithredol i wyro oddi wrth bolisi diogelwch yr Awdurdod o ran diogelwch data.

Rhoddwyd gwybod am bedwar achos posibl o dor diogelwch data er mwyn ymchwilio iddynt, gan gynnwys rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am un ohonynt, ac maent wedi'u cynnwys yn adroddiad yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

## Atal twyll

Mae fframwaith rheoli twyll yr Awdurdod wedi'i gynllunio i leihau'r risg o dwyll i'r eithaf ac mae'n cynnwys polisi a strategaeth atal twyll ag allbynnau allweddol. Mae hyn yn cydymffurfio â gofynion Safonau Swyddogaethol Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Atal Twyll ac mae'n amlinellu dull gweithredu'r Awdurdod ynghyd â chynllun gweithredu am y flwyddyn.

Yn ystod chwarter tri o'r flwyddyn fusnes 2022/23, cynhaliwyd adolygiad pen desg gan Uned Atal Twyll yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. O'r 12 safon, nodwyd bod wyth wedi cael eu cyrraedd, gyda phedair yn cael eu cyrraedd yn rhannol. Roedd y safonau a gyrhaeddwyd yn rhannol yn ymwneud â'n cynllun gweithredu, metrigau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, asesiad risg o dwyll a hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o dwyll. Caiff cynllun ei roi ar waith yn ystod chwarter dau o'r flwyddyn fusnes newydd a fydd yn canolbwyntio ar gryfhau'r meysydd a godwyd yn yr adolygiad pen desg.

Yn ystod 2022/23, gwnaethom barhau i wneud cyflwyniadau i Swyddfa'r Cabinet yn unol â Safonau Swyddogaethol y Llywodraeth ar gyfer Atal Twyll (GovS013). Hefyd, caiff asesiadau risg eu cynnal ddwywaith y flwyddyn ac mae ein cynllun gweithredu yn parhau i ddatblygu er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

Rydym wedi cymryd rhan yn ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol a gynhelir bob blwyddyn. Ymarfer sy'n paru data electronig o fewn a rhwng cyrff yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn atal a chanfod twyll yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Fel rhan o'r ymarfer cenedlaethol hwn, mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn darparu adnodd sgrinio taliadau credydwyr a'r gyflogres ac mae wedi datblygu nifer o brofion i nodi taliadau dyblyg i'r staff sy'n hawlio tâl oddi

wrth fwy nag un sefydliad. Mae i'r ymarfer hwn fanteision ariannol, ac mae hefyd yn helpu i wella effeithlonrwydd systemau taliadau credydwyr a chyflogres sefydliad.

## Chwythu'r chwiban

Mae polisi chwythu'r chwiban yr Awdurdod yn nodi sut y gall unrhyw bryderon gael eu codi gan y staff a pha gamau y byddai'n eu cymryd. Ei nod yw rhoi sicrwydd i'r staff y dylent godi pryderon yn agored ac na fydd unrhyw beth yn digwydd iddynt os byddant yn codi pryderon yn ddidwyll. Mae'r staff wedi cael ei hysbysu am y polisi drwy gylchlythyrau rheolaidd ac ym mhob cyfarfod staff.

Yn ogystal â sianeli rheoli llinell ac adnoddau dynol, mae gan yr Awdurdod ddau hyrwyddwr Rhyddid i Ddweud eich Barn, y naill yn aelod o'r staff a'r llall yn Aelod o'r Bwrdd, y gall y staff godi pryderon gyda nhw. Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yw'r Aelod Bwrdd ac mae'n cyfarfod â'r aelod staff cyn pob un o gyfarfodydd y pwyllgor er mwyn adolygu'r hyn sydd wedi cael ei drafod yng nghyfarfodydd y fforwm y staff a rhoi cyfle i'r hyrwyddwr Rhyddid i Ddweud eich Barn sy'n aelod staff drafod unrhyw bryderon sydd gan yr hyrwyddwr neu unrhyw aelod arall o'r staff. Darperir manylion cyswllt yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r llinell gymorth chwythu'r chwiban hefyd.

Yn ystod 2022/23, ni chodwyd unrhyw achosion o dan drefniadau chwythu'r chwiban yr Awdurdod.

## Safonau swyddogaethol

Nod y safonau swyddogaethol yw hyrwyddo arferion gwaith cyson a chydlynol yn sefydliadau'r llywodraeth. Yn ystod 2022/23, nododd yr Awdurdod y safonau swyddogaethol priodol a oedd yn gymwys, ac mae cynlluniau ar waith i'w alluogi i fonitro a gwerthuso cydymffurfiaeth â nhw. Mae 14 o safonau, y mae naw ohonynt yn gymwys i'r Awdurdod.

## Pensiynau

Fel cyflogwr staff sydd â'r hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheolaeth ar waith er mwyn sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr o dan rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflogau, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i mewn i'r cynllun yn digwydd yn unol â'r rheolau, a bod cofnodion aelodau o'r cynllun pensiwn yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r terfynau amser a nodir yn y rheoliadau.

## Archwilio mewnol

Mae'r Awdurdod yn defnyddio gwasanaeth Archwilio Mewnol a Sicrwydd y Llywodraeth, sy'n atebol i'r Swyddog Cyfrifyddu (y Prif Weithredwr). Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, sy'n cynnwys barn annibynnol flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli risg, a rheolaeth a llywodraethu, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Mae adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn adlewyrchu'n dda ar y sefydliad a rhoddodd farn blynyddol o 'cymedrol' ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu,

rheoli risg a rheolaeth. Mae hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Swyddog Cyfrifyddu bod yr Awdurdod yn cael ei reoli'n dda.

## Adolygiad o effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n dibynnu ar y system fewnol o reolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- goruchwyliaeth gan y Bwrdd a'i is-bwyllgorau, gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd;
- gwaith a barn GIAA, ein harchwilwyr mewnol;
- uwch-reolwyr yn y sefydliad, a oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system o reolaeth fewnol;
- adroddiadau rheolaidd i'r Tîm Gweithredol ar berfformiad a rheoli risg.

Rwyf wedi nodi adroddiad blynyddol GIAA, sydd, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, yn dod i'r casgliad bod yr Awdurdod "has maintained an adequate system of governance, risk management and internal control": Mae wedi llunio'r farn hon drwy'r canlynol:

- Cynnal asesiad manwl o anghenion archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. Ar sail hwn, mae wedi blaenoriaethu gweithgarwch dros gyfnod cynllunio o dair blynedd er mwyn llunio strategaeth archwilio mewnol a chynllun gweithredu blynyddol;
- Pob archwiliad a gynhaliwyd yn ystod 2022/23;
- Monitro'r ffordd y mae argymhellion archwilio mewnol wedi cael eu rhoi ar waith drwy gydol y flwyddyn.

**Dr Colin Sullivan**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol:** **Dyddiad:19 Gorffennaf 2023**

# Yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

Mae'r adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff yn rhoi manylion am gydnabyddiaeth (gan gynnwys unrhyw gydnabyddiaeth anariannol) a buddiannau pensiwn Aelodau'r Bwrdd a'r cyfarwyddwyr sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd.

## Archwilio

Caiff meysydd penodol yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth a staff eu harchwilio gan archwilwyr allanol yr Awdurdod. Mae'r adrannau hyn wedi'u labelu ‘Yn amodol ar archwiliad’.

## Cydnabyddiaeth uwch-staff

Pennir cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae cyflogau'r staff a gyflogir ar amodau a thelerau gwasanaeth y GIG yn ddarostyngedig i gyfarwyddyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r holl uwch-reolwyr gweithredol yn destun gwerthusiad swydd annibynnol yn gyntaf ac yna caiff ei chymeradwyo gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr Awdurdod gyda goruchwyliaeth lywodraethu ychwanegol gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae angen i'r Ysgrifennydd Gwladol a Phwyllgor Cydnabyddiaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gymeradwyo unrhyw gyflog sy'n fwy na £150,000. Nodir cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr a'r uwch-reolwyr yn y tabl ar dudalennau 50-51.

Ceir gwybodaeth am bolisi cydnabyddiaeth yr Awdurdod ar dudalennau 44-45 a nodir aelodaeth y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar dudalen 36 yn y datganiad llywodraethu blynyddol ac nid yw wedi cael ei archwilio.

## Gwerthuso perfformiad

Cytunir ar broses o bennu amcanion personol sy'n cyd-fynd â'r cynllun busnes â phob aelod o'r staff bob blwyddyn ac mae'r holl staff yn cael arfarniad blynyddol o berfformiad. Cafodd y dull gweithredu ei gryfhau ymhellach yn 2022/23 yn sgil cyflwyno adborth 360 gradd gan gymheiriaid a rhanddeiliaid eraill.

## Polisi ar hyd contractau, cyfnodau rhybudd a thaliadau terfynu

### Telerau ac amodau: cyfarwyddwyr anweithredol a'r cadeirydd

Nodir isod delerau ac amodau'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

### Sail statudol dros benodi

Mae cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol cyrff cyhoeddus anadrannol yn dal swydd statudol o dan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012. Nid yw eu penodiad yn creu unrhyw gontract am wasanaethau na gwasanaeth rhyngddynt hwy a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol na rhyngddynt hwy a'r Awdurdod.

### Cyfraith cyflogaeth

Nid yw penodiadau Cadeirydd na Chyfarwyddwyr Anweithredol yr Awdurdod o fewn awdurdodaeth tribiwnlysoedd cyflogaeth. Nid oes unrhyw hawl ychwaith am ddigolledu mewn perthynas â cholli swydd drwy gyflogaeth.

### Ailbenodiadau

Mae'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gymwys i gael eu hailbenodi ar ddiwedd y cyfnod mewn swydd, sef tair blynedd ar hyn o bryd, ond nid oes ganddynt hawl i gael eu hailbenodi. Bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn llunio barn ynglŷn â phwy y dylid ei benodi/phenodi i'r swydd.

### Terfynu penodiad

Caiff cadeirydd neu gyfarwyddwr anweithredol ymddiswyddo drwy roi rhybudd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ysgrifenedig. Fel arall, bydd ei benodiad/phenodiad yn cael ei derfynu ar y dyddiad a nodwyd yn ei (l)lythyr penodi oni chaiff ei derfynu'n gynharach yn unol ag atodlen 2 i'r Ddeddf Meinweoedd Dynol.

### Cydnabyddiaeth

O dan y Ddeddf, mae gan y cadeirydd a'r cyfarwyddwyr anweithredol yr hawl i gael cydnabyddiaeth gan yr Awdurdod tra byddant yn dal swydd.

### Buddiannau mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan y cyflogwr ac mae'n cael ei drin gan CThEF fel enillion trethadwy. Mae'r Awdurdod wedi cytuno ar Gytundeb Setliad TWE â CThEF ynglŷn ag enillion trethadwy Aelodau Bwrdd yr Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys teithio a chynhaliaeth.

Cyhoeddir gwybodaeth am gostau teithio a chynhaliaeth gan Aelodau'r Awdurdod ac uwch-reolwyr ar wefan yr Awdurdod - https://www.hta.gov.uk/about-hta/transparency/workforce-and-expenses-information .

### Gwrthdaro buddiannau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus a gyhoeddir gan Swyddfa'r Cabinet yn gymwys i fyrddau cyrff cyhoeddus anadrannol. Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i gadeiryddion ac

aelodau bwrdd ddatgan, ar adeg eu penodiad, unrhyw fuddiannau busnes, rolau ag awdurdod mewn elusen neu gorff gwirfoddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac unrhyw gysylltiad â chyrff sy'n contractio am wasanaethau'r GIG. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu cofnodi ar gofrestr buddiannau'r Awdurdod, sydd ar gael i'r cyhoedd. Dylai unrhyw newidiadau gael eu datgan wrth iddynt godi.

## Telerau ac amodau Tîm Gweithredol yr Awdurdod

**Sail dros benodi**

Penodir pob cyfarwyddwr gweithredol a chyfarwyddwyr eraill sy'n aelodau o'r tîm gweithredol ar sail barhaol o dan contract gwasanaeth ar gyflog blynyddol y cytunwyd arno. Byddant yn gymwys i hawlio lwfansau am gostau teithio a chynhaliaeth, ar gyfraddau a bennir gan yr Awdurdod, ar gyfer treuliau yr eir iddynt ar ei ran.

**Terfynu penodiad**

Mae'n rhaid i gyfarwyddwyr sy'n aelodau o'r tîm gweithredol roi rhybudd o dri mis. Nid oes unrhyw angen i ddarparu ar gyfer digollediad yng nghyfrifon blynyddol yr Awdurdod ar gyfer terfynu contract gwasanaeth unrhyw gyfarwyddwr gweithredol yn 2022/23.

**Telerau ac amodau staff yr Awdurdod**

Mae'r Awdurdod yn darparu ar gyfer cynyddu cyflogau'r staff bob blwyddyn ym mis Awst. Bydd unrhyw gynnydd yn unol â chanllawiau tâl Trysorlys EF a chânt eu cymeradwyo gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth yr Awdurdod a chan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'n ofynnol i aelodau o'r staff ym Mandiau 1-3 (Cynorthwywyr, Swyddogion a Rheolwyr) roi wyth wythnos o rybudd i derfynu contract i'r Awdurdod. Mae'n ofynnol i aelodau o'r staff ym Mandiau 4 (Penaethiaid Gwasanaeth), Bandiau 5 (Dirprwy Gyfarwyddwyr) ac uwch-reolwyr gweithredol (Cyfarwyddwyr) roi tri mis o rybudd. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi'r cyfnod rhybudd o rhwng wythnos a 12 wythnos yn unol â Deddf Hawliau Dynol 1996.

Dim ond o dan amgylchiadau priodol y gwneir taliadau terfynu a gallant godi os nad yw'n ofynnol i staff weithio eu cyfnod rhybudd. Gwnaed tri thaliad yn 2022/23 (a dim yn 2021/22).

| Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth – Aelodau'r Bwrdd (yn amodol ar archwiliad) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | | | | 2021/22 | | | |
| **Enw'r Aelod o'r Bwrdd** | **Cyflog mewn bandiau o £5'000** | **Cyfanswm y buddiannau anariannol i'r £100 agosaf** | **Buddiannau Pensiwn i'r £1000 agosaf** | **Cyfanswm** | **Cyflog mewn bandiau o £5'000** | **Cyfanswm y buddiannau anariannol i'r £100 agosaf** | **Buddiannau Pensiwn i'r £1000 agosaf** | **Cyfanswm** |
| | £'000'oedd | £ | £'000'oedd | £'000'oedd | £'000'oedd | £ | £'000'oedd | £'000'oedd |
| Lynne Berry, Cadeirydd | 40-45 | 0 | 0 | 40-45 | 40-45 | 0 | 0 | 40-45 |
| Yr Athro Deborah Bowman | 5-10 | 0 | 0 | 5-10 | 5-10 | 0 | 0 | 5-10 |
| Tom Chakraborti | 5-10 | 0 | 0 | 5-10 | Dd/g | Dd/g | Dd/g | Dd/g |
| Yr Athro Gary Crowe Gary Crowe, Cadeirydd Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd | 10-15 | 1,100 | 0 | 10-15 | 10-15 | 0 | 0 | 10-15 |
| Helen Dodds | 5-10 | 100 | 0 | 5-10 | Dd/g | Dd/g | Dd/g | Dd/g |
| Ellen Donovan | 5-10 | 800 | 0 | 5-10 | 5-10 | 0 | 0 | 5-10 |
| Dr Andy Greenfield | 5-10 | 300 | 0 | 5-10 | Dd/g | Dd/g | Dd/g | Dd/g |
| Dr Charmaine Griffiths[8] | 0-5 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 5-10) | 0 | 0 | 0-5 | 5-10 | 0 | 0 | 5-10 |
| Glenn Houston[9] | 0-5 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 5-10) | 0 | 0 | 0-5 | 5-10 | 0 | 0 | 5-10 |
| David Lewis | 5-10 | 100 | 0 | 5-10 | Dd/g | Dd/g | Dd/g | Dd/g |

[8] Ymddiswyddodd Dr Charmaine Griffiths o'r Bwrdd ar 31/8/2022

[9] Daeth cyfnod Glenn Houston yn ei rôl i ben ar 30/04/2022

| Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth – Tîm Gweithredol (yn amodol ar archwiliad) | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | | | | | 2021/22 | | | | |
| Enw'r Swyddog | Cyflog mewn bandiau o £5'000 | Bonysau mewn bandiau o £5'000 | Cyfanswm y buddiannau anariannol i'r £100 agosaf | Buddiannau Pensiwn i'r £1000 agosaf | Cyfanswm | Cyflog mewn bandiau o £5'000 | Bonysau mewn bandiau o £5'000 | Cyfanswm y buddiannau anariannol i'r £100 agosaf | Buddiannau Pensiwn i'r £1000 agosaf | Cyfanswm |
| | £'000'oedd | £'000'oedd | £ | £'000'oedd | £'000'oedd | £'000'oedd | £'000'oedd | £ | £'000'oedd | £'000'oedd |
| Dr Colin Sullivan | 135-140 | 0 | 0 | 31,000 | 165-170 | 30-35((Cyfwerth â blwyddyn lawn 135-140) | 0 | 300 | 8,000 | 40-45 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 140-145) |
| Louise Dineley | 95-100 | 0 | 0 | 11,000 | 105-110 | 95-100 | 0 | 0 | 27,000 | 120-125 |
| Nicolette Harrison, | 100-105 | 0 | 0 | 25,000 | 125-130 | 95-100 | 0 | 0 | 25,000 | 120-125 |
| John McDermott [10] | 55-60 (Cyfwerth â blwyddyn lawn 85-90) | 0 | 0 | 25,000 | 80-85 | Dd/g | Dd/g | Dd/g | Dd/g | Dd/g |
| Richard Sydee[11] | 45-50 (Cyfwerth ag amser llawn 95-100) | 0 | 0 | 0 | 45-40 | 45-50 (Cyfwerth ag amser llawn 95-100) | 0 | 0 | 22,000 | 70-75 |

## COSTAU PENSIWN

Caiff cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol eu cwmpasu gan ddarpariaethau dau gynllun pensiwn y GIG. Mae manylion y buddiannau sy'n daladwy a rheolau'r cynlluniau ar wefan Pensiynau'r GIG yn www.nhsbsa.nhs.uk/pensions. Mae'r naill a'r llall yn gynlluniau buddiannau diffiniedig nas ariennir sy'n cwmpasu cyflogwyr y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Nid ydynt wedi'u cynllunio i gael eu rhedeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyrff y GIG i nodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun. Felly, cyfrifir am bob cynllun fel petai'n gynllun cynllun cyfraniadau diffiniedig: ystyrir bod cost cymryd rhan ym mhob cynllun i gorff y GIG yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun hwnnw ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

[10] Ymunodd John McDermott â'r HTA ar 1 Awst 2022

[11] Roedd Richard Sydee yn 0.5Fte gan ei fod yn gweithio i'r HFEA am 50% o'i amser

Er mwyn sicrhau nad yw rhwymedigaethau'r buddiannau diffiniedig a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn wahanol mewn ffordd berthnasol i'r rhai a fyddai'n cael eu pennu ar y dyddiad adrodd gan brisiad actwraidd ffurfiol, o dan y Llawlyfr Adrodd Ariannol mae'n ofynnol “the period between formal valuations shall be four years, with approximate assessments in intervening years.” Mae amlinelliad o'r rhain yn dilyn:

**a) Prisiad cyfrifyddu**

Mae prisiad o rwymedigaeth cynllun yn cael ei gynnal bob blwyddyn gan actiwari'r cynllun (sef Adran Actiwari'r Llywodraeth ar hyn o bryd) fel y mae ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae hyn yn defnyddio asesiad actiwaraidd ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu blaenorol ar y cyd â data wedi'u diweddaru ar aelodaeth a data ariannol ar gyfer y cyfnod adrodd cyfredol a derbynnir ei fod yn rhoi ffigurau cadarn addas at ddiben adrodd ariannol. Mae prisiad rhwymedigaeth y cynllun ar 31 Mawrth 2023, yn seiliedig ar ddata prisio ar 31 Mawrth 2022, wedi'u diweddaru i 31 Mawrth 2023 â data cyffredinol cryno am aelodau a data cyfrifyddu. Wrth gynnal yr asesiad actiwaraidd hwn, mae'r fethodoleg a ragnodwyd yn IAS 19, sy'n berthnasol i ddehongliadau perthnasol y Llawlyfr Adrodd Ariannol, a'r gyfradd ddisgowntio a ragnodwyd gan Drysorlys EF hefyd wedi cael eu defnyddio. Ceir yr asesiad diweddaraf o rwymedigaethau'r cynllun yn adroddiad actiwari'r cynllun, sy'n rhan o gyfrifon blynyddol Cynllun Pensiwn y GIG. Gellir gweld y cyfrifon hyn ar wefan Pensiynau'r GIG a chânt eu cyhoeddi'n flynyddol. Mae copïau hefyd ar gael gan y Llyfrfa.

**b) Prisiad (cyllido) actiwaraidd llawn**

Diben y gwerthusiad hwn yw asesu lefel y rhwymedigaeth mewn perthynas â'r buddiannau sy'n ddyledus o dan y cynlluniau (gan ystyried profiad demograffig diweddar), ac argymell cyfraddau cyfrannu sy'n daladwy gan gyflogwyr a chyflogeion.

Cwblhawyd y prisiad actiwaraidd diweddaraf ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG ar 31 Mawrth 2016. O ganlyniad i'r prisiad hwn pennwyd cyfradd gyfrannu'r cyflogwr yn daladwy o fis Ebrill 2019 yn 20.6% o gyflog pensiynadwy.

Mae'r prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2020 sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd a byd yn pennu cyfradd gyfrannu newydd y cyflogwr a gaiff ei chyflwyno o fis Ebrill 2024.

**Buddiannau Pensiwn – Tîm Gweithredol (yn amodol ar archwiliad)**

| Enw'r Swyddog | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed (a) | Cynnydd gwirioneddol yng nghyfandaliad y pensiwn ar ôl cyrraedd 60 oed (b) | Cyfanswm y Pensiwn cronedig ar 31/03/23 (c) | Cyfandaliad yn 60 oed ar 31/03/23 (d) | CETV ar 31/03/23 (e) | Cynnydd gwirioneddol yng ngwerth CETV fel y'i hariannwyd gan y cyflogwr 2022/23 (f) | CETV ar 31/03/22 (g) | Cyfraniad y cyflogwr i bensiwn cyfranddeiliaid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000oedd** | **£'000oedd** | **£'000oedd** | **£'000oedd** | **£'000oedd** | **£'000oedd** | **£'000oedd** | **£'000oedd** |
| Dr Colin Sullivan | 2.5-5 | 0 | 0-5 | Dd/g | 48 | 20 | 9 | 0 |
| Louise Dineley | 0-2.5 | 0 | 35-40 | 0 | 603 | 11 | 562 | 0 |
| Nicolette Harrison | 0-2.5 | 0 | 5-10 | Dd/g | 144 | 19 | 108 | 0 |
| John McDermott | 0-2.5 | 0 | 10-15 | Dd/g | 122 | 10 | 101 | 0 |
| Richard Sydee | 0-2.5 | 0 | 40-45 | 80-85 | 725 | (23)[12] | 667 | 0 |

**Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod**

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraidd buddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'i gronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a brisiwyd yw buddiannau cronedig yr aelod a phensiwn unrhyw briod dibynnol (neu fuddioliwr arall a ganiateir) sy'n daladwy o'r cynllun. Cyfrifir Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod yn unol ag OS 2008 Rhif 1050 Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008.

Cyfrifir ffigurau Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023 a chaiff y canllawiau hyn eu defnyddio i gyfrifo ffigurau Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod ar gyfer 2023-24.

**Cynnydd gwirioneddol mewn CETV**

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall).

**Cymhareb dâl (yn amodol ar archwiliad)**

[12] Gan ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr gweithredol / aelod sy'n cael y tâl mwyaf yn ei sefydliad yn erbyn 25ain ganradd, canolrif a 75ain ganradd cydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad. Caiff cyfanswm y gydnabyddiaeth ei ddadansoddi ymhellach i ddangos y berthynas rhwng elfen cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf o gyfanswm ei gydnabyddiaeth yn erbyn 25ain ganradd, canolrif a 75ain ganradd elfennau cyflog gweithlu'r sefydliad.

Band cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf yn yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23 oedd £135k-140k (2021/22, £135k-140k). Datgelir y berthynas â chydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad yn y tabl isod:

| | | Blwyddyn Ariannol | |
|---|---|---|---|
| | | 2022-23 | 2021-22 |
| | Band cydnabyddiaeth yr unigolyn a gafodd y tâl mwyaf | £135,000 i £140,000 | £135,000 i £140,000 |
| Y 25ain Ganradd | Cyfanswm cydnabyddiaeth a chyflog y 25ain Ganradd | £43,100 | £43,128 |
| | Cymhareb cyfanswm y gydnabyddiaeth | 3.19 : 1 | 3.19 : 1 |
| | Cyflog yn unig | £42,000 | £43,128 |
| | Cymhareb cyflog yn unig | 3.27 : 1 | 3.19 : 1 |
| Canolrif | Cyfanswm cydnabyddiaeth a chyflog y 50ain Ganradd | £46,128 | £46,000 |
| (Y 50fed Ganradd) | Cymhareb cyfanswm y gydnabyddiaeth | 2.98 : 1 | 2.99 : 1 |
| | Cyflog yn unig | £45,000 | £46,000 |
| | Cymhareb cyflog yn unig | 3.06 : 1 | 2.99 : 1 |
| Y 75ain Ganradd | Cyfanswm cydnabyddiaeth a chyflog y 75ain Ganradd | £51,007 | £59,426 |
| | Cymhareb cyfanswm y gydnabyddiaeth | 2.70 : 1 | 2.31 : 1 |
| | Cyflog yn unig | £49,352 | £59,426 |
| | Cymhareb cyflog yn unig | 2.79 : 1 | 2.31 : 1 |

Yr unigolyn a gafodd y tâl mwyaf ar gyfer y gymhariaeth hon oedd y Prif Weithredwr. Ni fu fawr ddim newid yng nghydnabyddiaeth ganolrifol y staff ers y flwyddyn ddiwethaf. Bu gostyngiad sylweddol yn y 75ain ganradd rhwng 2021/22 a 2022/23. Gellir priodoli hyn i'r lleihad yn nifer y staff dros dro yn 2022/23. Rydym yn sefydliad arbenigol bach wedi'i leoli yn Llundain y mae ei waith yn gofyn am sgiliau gwyddonol a sgiliau proffesiynol a lefel gradd eraill. O ganlyniad, erys y tâl canolrifol yn uwch na'r hyn a welir mewn nifer o gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

Yn 2022/23, ni chafodd unrhyw gyflogeion gydnabyddiaeth a oedd yn fwy na'r hyn a gafodd y cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf (2021/22, 1). Roedd cydnabyddiaeth yn amrywio o £25,000 i £135,000 (2021/22 £25,000 i £192,000). Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddiannau mewn nwyddau, ond nid taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod pensiynau.

Mae'r ffigurau a gymharwyd â'r flwyddyn flaenorol wedi newid yn y tabl uchod oherwydd dyfarniadau cyflog a chynnydd yn nifer y staff mewn band cyflog uwch.

## Newid canrannol yng nghydnabyddiaeth y cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf (yn amodol ar archwiliad)

| Cyfarwyddwr | 2022/23 | 2021/22 | Newid |
|---|---|---|---|
| Cyflog a lwfansau | £137,500 | £137,500 | Dd/g |
| Cyflog perfformiad | Dim | Dim | Dd/g |

Mae'r tabl uchod yn dangos y newid ym mhwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a'i gyflog perfformiad. Yn 2022/23 nid oedd unrhyw ddyfarniadau cyflog na thâl ar sail perfformiad.

Mae'r tabl isod yn dangos y newid canrannol cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â staff yr Awdurdod.

| Staff | 2022/23 | 2021/22 | Newid |
|---|---|---|---|
| Cyflogau a lwfansau | £47,967 | £54,163 | (11.4%) |
| Cyflog perfformiad | £48,555 | £54,163 | (10.4%) |

Yn unol â pholisi tâl Swyddfa'r Cabinet, cafodd staff yr Awdurdod ddyfarniad cyflog a oedd yn amrywio o 2.5% i ddyfarniad unffurf cyfartalog o £1,300 yn ystod y flwyddyn adrodd.

Ni fu unrhyw newid yng nghyflog y cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf. O gymharu â'r cyflog hwnnw bu gostyngiad o 11.4% yng nghyflogau'r staff (heb gynnwys dyfarniadau cyflog) a gostyngiad o 10.4% mewn cyflogau, gan gynnwys tâl perfformiad, oherwydd lleihad yn nifer y penodiadau contract cyfnod penodol.

## Dadansoddiad o gostau staff (yn amodol ar archwiliad)

Mae'r Awdurdod wedi'i strwythuro fel a ganlyn: naw Aelod o'r Awdurdod, gan gynnwys y Cadeirydd a Thîm Gweithredol o 58 o staff. Ar gyfer 2022/23, roedd costau staff yr Awdurdod fel a ganlyn:

| | Staff a gyflogir yn barhaol | Aelodau | Staff ar secondiad | Staff dros dro | Cyfanswm 2022/23 | Cyfanswm 2021/22 |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|---:|
| | £'000'oedd | £'000'oedd | £'000'oedd | £'000'oedd | **£'000oedd** | £'000'oedd |
| Cyflogau | 2,485 | 106 | 201 | 114 | **2,906** | 2,799 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 304 | 5 | 18 | 0 | **327** | 266 |
| Costau pensiwn | 471 | 0 | 34 | 0 | **505** | 435 |
| Is-gyfanswm | 3,260 | 111 | 253 | 114 | **3,738** | 3,500 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llai symiau a adenillwyd mewn perthynas â secondiadau i'r tu allan | 0 | 0 | (63) | 0 | **(63)** | (50) |
| **Cyfanswm costau net** | 3,260 | 111 | 190 | 114 | **3,675** | 3,450 |

Ar gyfer 2022/23 talwyd yr holl gyfraniadau i Gynllun Pensiwn y GIG ar y cyfraddau a ragnodwyd gan Drysorlys EF. Ym mis Hydref 2022, bu newid yng nghyfraddau cyfrannu cyflogeion, a olygai fod rhai cyfraddau yn gostwng. Disgwylir i'r cyfraddau cyfrannu newydd hyn gael eu diwygio eto yn ddiweddarach yn 2023. Ceir manylion ar wefan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG Cost of being in the Scheme | NHSBSA. Cyfradd gyfredol y cyflogwr ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG yw 20.68% o dâl pensiynadwy yn unol â lefel y cyflog.

## Y nifer cyfartalog o bersonau a gyflogir (yn amodol ar archwiliad)

Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth ag amser cyflawn a oedd wedi eu cyflogi neu wedi eu secondio i'r tu allan yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff ar secondiad | Cyfanswm 2022/23 | Cyfanswm 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Uwch Wasanaeth Sifil | 3 | 0 | 3 | 3 |
| Arall | 50 | 2 | 52 | 43 |
| **Cyfanswm y staff** | **53** | **2** | **55** | **46** |

Dim ond staff a gyflogir yn uniongyrchol gan yr Awdurdod a nodir yn y tabl uchod. Yn ystod y flwyddyn, roedd dau aelod o'r staff ar secondiad i'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol am tua hanner eu hamser. Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod 58 o staff cyfwerth ag amser cyflawn (2021/22, 45.5). Cyfanswm nifer y staff contract (dros dro) yn 2022/23 oedd 1 (2021/22 5).

## Trosiant Staff

Cafwyd trosiant staff o 30.5% (2021/22, 15%).

## Y cymysgedd o ran rhyw ar 31 Mawrth 2023

Ceir dadansoddiad o'r cymysgedd o ran rhyw ar gyfer nifer y staff ar 31 Mawrth 2023 isod. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys y Cyfarwyddwr a rennir, y cyfrifir am yr unigolyn hwn yn yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol na staff dros dro.

| Rhyw | Gwryw | Benyw | Cyfanswm 2022/23 | Cyfanswm 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Aelodau'r Awdurdod | 3 | 6 | **9** | 9 |
| Cyfarwyddwyr | 1 | 2 | **3** | 3 |
| Cyfanswm y staff (gan gynnwys Cyfarwyddwyr ac eithrio Aelodau'r Awdurdod)[13] | 19 | 39 | **58** | 48 |

Ceir ystadegau ychwanegol isod ynglŷn â chymysgedd staff yr Awdurdod

## Y cymysgedd o staff yn ôl oedran ar 31 Mawrth 2023

| Ystod oedran | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| 18-29 | **1** | 4 |
| 30-39 | **13** | 21 |
| 40-49 | **31** | 13 |
| 50-59 | **8** | 7 |
| 60+ | **5** | 14 |

## Y cymysgedd o staff yn ôl ethnigrwydd

| Ethnigrwydd | 2022/23 | 2021/2022 |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | **30** | 26 |
| Asiaidd [Indiaidd] | **2** | 4 |
| Asiaidd [Arall] | **1** | 0 |
| Asiaidd [Pacistanaidd] | **1** | 0 |
| Du [Affricanaidd] | **2** | 1 |
| Du [Caribïaidd] | **1** | 0 |
| Gwyn [Ewropeaidd] | **1** | 3 |
| Gwyn [Gwyddelig] | **1** | 2 |
| Gwyn [Arall] | **2** | 2 |
| Heb ei ddiffinio | **17** | 7 |

[13] Y flwyddyn ddiwethaf (Gwryw 14/Benyw 31)

| | | |
|---|---|---|
| CYFANSWM | **58** | 45 |

## Amser yn y swydd

| Ystod oedran | 2022/23 |
|---|---|
| 0 – 4 oed | **36** |
| 5 – 9 oed | **13** |
| 10 – 19 oed | **9** |

Nid oes unrhyw ddata cymaradwy ar gyfer 2021/22.

## Salwch ac absenoldebau

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, collwyd 98 diwrnod cyfwerth ag amser cyflawn (2021/22: 143 diwrnod) o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch. Datgelir y wybodaeth hon yn unol â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol.

## Gwariant ar ymgynghoriaeth

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, gwariodd yr Awdurdod £149,846 ar wasanaethau ymgynghoriaeth sy'n cynnwys ffioedd cyfreithiol, ymgynghoriaeth dechnegol ac ymgynghoriaeth ym maes adnoddau dynol (2021/22 £444,338)

## Datganiad o sicrwydd oddi ar y gyflogres

Mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau bod unrhyw benodiadau sy'n para mwy na chwe mis, am fwy na chyfradd y dydd o £245, yn cynnwys darpariaethau cytundebol sy'n ein galluogi i geisio sicrwydd ynglŷn â rhwymedigaethau'r person a benodir i dalu treth incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol, ac i derfynu'r contract os na roddir y sicrwydd hwnnw.

Ar gyfer pob penodiad newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a barodd am chwe mis, ar 31 Mawrth 2023, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para mwy na chwe mis. Nid oes unrhyw aelod o'r staff wedi bodloni'r meini prawf hyn.

Nodir drosodd bob penodiad newydd oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a barodd am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, am fwy na £245 y dydd ac sy'n para mwy na chwe mis.

| Nifer y penodiadau cyfredol ar 31 Mawrth 2023 | 1 |
|---|---|
| O'u plith…. | |
| Nifer yr aseswyd bod IR35 yn berthnasol iddynt | 1 |
| Nifer yr aseswyd nad yw IR35 yn berthnasol iddynt | 0 |
| Nifer a benodir yn uniongyrchol (drwy Gontract Sector Cyhoeddus a gontractiwyd i adran) ac sydd ar gyflogres yr adran | 0 |

| | |
|---|---|
| Nifer y penodiadau a ailasesir at ddibenion cydymffurfiaeth neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Nifer y penodiadau y newidiwyd eu statws IR35 yn dilyn adolygiad gan ymgynghorwyr | 0 |

Ar gyfer unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

| **Nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol** | **3** |
|---|---|
| Cyfanswm nifer yr unigolion ar y gyflogres ac oddi ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn aelodau bwrdd, a/neu uwch-swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol. | 3 |

## Pecynnau ymadael (yn amodol ar archwiliad)

| Band cost pecynnau ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Cost y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill | Cost yr ymadawiadau eraill | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | Cyfanswm cost y pecynnau ymadael | Nifer yr ymadawiadau lle mae taliadau arbennig wedi cael eu gwneud | Cost elfen y taliad arbennig a gynhwyswyd mewn pecynnau ymadael |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £ | # | £ | # | £ | # | £ |
| **Llai na £10,000** | **0** | **0** | **3** | **13,500** | **3** | **13,500** | **0** | **0** |
| **£10,00-£25,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **£25,001-£50,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **£50,001-£100,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **£100,001-£150,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **£150,001-£200,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **>£200,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfansymiau** | **0** | **0** | **3** | **13,500** | **3** | **13,500** | **0** | **0** |

| Math o Ymadawiadau Eraill | Nifer y Cytundebau | Cyfanswm gwerth y Cytundebau £000'oedd |
|---|---|---|
| Diswyddiadau gwirfoddol, gan gynnwys costau cytundebol ymddeol yn gynnar | | |
| Costau cytundebol diswyddiadau y cytunwyd arnynt gan y naill barti a'r llall (MARS) | | |
| Ymddeoliadau cynnar er effeithlonrwydd contractau gwasanaeth | | |
| Taliadau cytundebol yn lle rhybudd | 3 | 13.5 |
| Taliadau ymadael yn dilyn gorchmynion gan Dribiwnlysoedd Cyflogaeth neu lys | | |
| Taliadau anghytundebol y mae angen i Drysorlys EF eu cymeradwyo | | |
| **Cyfanswm** | **3** | **13.5** |

Cyfrifir costau ymadael yn y nodyn hwn yn llawn yn y flwyddyn ymadael.

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael yn 2021-22 ac felly nid yw’r tabl hwn wedi’i gyflwyno ar gyfer y flwyddyn flaenorol

# Adroddiad ar atebolrwydd seneddol ac archwilio

## Atebolrwydd (mae'r manylion isod yn amodol ar archwiliad)

### Codi ffioedd a dyrannu costau

Pennir ein ffioedd trwydded i adennill y gost lawn yr eir iddi wrth roi trwyddedau a rheoleiddio. Mae'r tabl isod yn dangos yr incwm o bob sector, incwm arall o weithgareddau trwyddedu a chostau gweithgareddau trwyddedu. Yr incwm a ddangosir yw'r hyn sy'n ymwneud â gweithgareddau trwyddedadwy ac felly nid yw'n cynnwys elfen o rent nac incwm o secondiadau.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran dyrannu costau a chodi tâl fel y'u nodwyd yng nghanllawiau Trysorlys EF.

| **SECTOR** | **31 Mawrth 2023** | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000oedd** | £'000'oedd |
| Ceisiadau | 106 | 102 |
| Anatomeg | 118 | 112 |
| Post-mortem | 1,277 | 1,280 |
| Arddangosiadau Cyhoeddus | 19 | 20 |
| Ymchwil | 778 | 762 |
| Defnydd mewn Bodau Dynol | 1,642 | 1,486 |
| Rhoi/ Trawsblannu Organau | 344 | 317 |
| Incwm arall o weithgareddau trwyddedu[14] | 114 | 107 |
| | | |
| **Cyfanswm yr Incwm o gontractau â Chwsmeriaid[15]** | **4,398** | **4,185** |
| Costau a ddyrannwyd i weithgareddau trwyddedu | (4,011) | (3,938) |
| **Gwarged/(Diffyg) ar weithgareddau** | **387** | **247** |

Hefyd, mae elfennau o'n gwaith nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chost rheoleiddio'r sectorau uchod. Felly, mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cyfrannu at ariannu'r gweithgareddau hyn drwy ddarparu cymorth grant.

### Colledion a thaliadau arbennig

Mae colledion a thaliadau arbennig yn cyfeirio at eitemau na fyddai Senedd y DU wedi eu hystyried pan gytunodd ar gyllid ar gyfer y gwasanaeth iechyd neu pan basiodd ddeddfwriaeth. Yn ôl eu natur, maent yn eitemau na ddylent godi yn ddelfrydol. Felly, maent yn ddarostyngedig i weithdrefnau rheolaeth arbennig o'u cymharu â thaliadau cyffredin. Cânt eu rhannu'n wahanol gategorïau, sy'n llywodraethu'r ffordd yr ymdrinnir ag achosion unigol.

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig o £300,000, naill ai'n unigol neu ar y cyd, yn 2022/23.

[14] Mae'r ffigur yn cynnwys incwm oddi wrth Lywodraethau Datganoledig ac incwm yr UE o brosiectau blaenorol
[15] Dyma gyfanswm yr incwm a ddyrannwyd i weithgareddau trwyddedadwy ac felly mae'n wahanol i'r hyn a geir ar dudalen 20.

### Rhwymedigaethau digwyddiadol pell

Ar 31 Mawrth 2023, nid oedd gan yr Awdurdod unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol pell (2021/22: dim)



**Dr Colin Sullivan**
**Swyddog Cyfrifyddu**
**Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol:** **Dyddiad: 19 Gorffennaf 2023**

# TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD Y RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I DAI'R SENEDD, CYNULLIAD GOGLEDD IWERDDON A SENEDD CYMRU

## Barn ar ddatganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol:

- Datganiad Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023;
- Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr, Datganiad Llif Arian Parod a Datganiad Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiadau cysylltiedig gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u mabwysiadwyd gan y DU yw'r fframwaith adrodd cyllidol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi adlewyrchiad gwir a theg o gyflwr yr Awdurdod Meinweoedd Dynol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023 ac o'i wariant net, am y flwyddyn ddaeth y ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Deddf Meinweoedd Dynol 2004 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â hi.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Y sail i'r farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (SARh DU), y gyfraith berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 *Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig (2022)*. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu hegluro ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol fy adroddiad.

Mae'r safonau hynny yn gofyn fy mod i a fy staff yn cydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019 y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwy'n annibynnol ar yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU. Mae fy staff a minnau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio sydd wedi dod i law yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi casglu bod defnydd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol o gyfrifo ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Awdurdod Meinweoedd Dynol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mae'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn cael ei mabwysiadu wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol ond nid y datganiadau ariannol a fy nhystysgrif archwilio wedi hynny. Yr Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicr arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol, neu'r wybodaeth a gefais yn yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos fel pe bai wedi'i chamddatgan yn sylweddol.

Os byddaf yn adnabod anghysonderau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae gofyn i mi benderfynu a ydy hyn wedi arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, ar sail y gwaith yr wyf wedi ei wneud, bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae gofyn i mi adrodd am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004:

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion rwy'n adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Awdurdod Meinweoedd Dynol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes dim gennyf i'w adrodd o ran y materion canlynol, rwyf yn eu hadrodd wrthych os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol, neu nad oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi'u derbyn gan ganghennau nad ymwelwyd â nhw gan fy nhîm; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol gennyf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sy'n destun archwiliad yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo a'r adroddiadau; neu
- na wnaed datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM neu nad yw rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu y cydymffurfiwyd â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifo ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonir yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifo, mae'r Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;

- darparu mynediad i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i'r holl wybodaeth y mae rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- rhoi gwybodaeth ychwanegol ac esboniadau i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol sydd eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- darparu mynediad anghyfyngedig i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i bersonau o fewn yr Awdurdod Meinweoedd Dynol y mae'r archwilydd yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- sicrhau bod rheolaethau mewnol o'r fath ar waith yn ôl yr angen i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad;
- sicrhau bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac yn cael eu paratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Tâl a Staff, yn cael ei baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004; a
- asesu gallu'r Awdurdod Meinweoedd Dynol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr Awdurdod a'r Swyddog Cyfrifo yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Meinweoedd Dynol 2004.

Fy nod yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd rhag unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed trwy dwyll neu gamgymeriad, ac i gyflwyno tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd oherwydd twyll neu wall a chânt eu hystyried yn sylweddol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellir disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

### I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â fy nghyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Mae'r graddau

y gall fy ngweithdrefnau ganfod diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, i'w gweld isod.

### Nodi ac asesu risgiau posibl sy'n gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth nodi ac asesu risgiau camddatganiad sylweddol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, rwyf:

- ystyried natur y sector, yr amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisïau cyfrifyddu'r Awdurdod Meinweoedd Dynol.
- holodd y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod Meinweoedd Dynol ar:
    - o nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - o canfod ac ymateb i risgiau twyll; a
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau gan gynnwys rheolaethau'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yn ymwneud â chydymffurfiaeth yr Awdurdod Meinweoedd Dynol â Deddf Meinweoedd Dynol 2004 a Rheoli Arian Cyhoeddus;
- holodd y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu:
    - o eu bod yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
    - o eu bod yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig;
- trafod ymhlith y tîm ymgysylltu ynghylch sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli o fewn yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar gyfer twyll a nodais y potensial mwyaf ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cydnabod refeniw, postio cofnodion anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn mewn amcangyfrifon rheoli. Yn yr un modd â phob archwiliad o dan SARh (DU), mae hefyd yn ofynnol i mi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg o reolaethau'n cael eu diystyru gan reolwyr.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Awdurdod Meinweoedd Dynol yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Awdurdod Meinweoedd Dynol. Roedd y deddfau a'r rheoliadau allweddol a ystyriwyd gennyf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys Deddf Meinweoedd Dynol 2004, Rheoli Arian Cyhoeddus, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau a deddfwriaeth treth.

### Ymateb archwilio i risgiau a nodwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a nodwyd sy'n deillio o'r gweithdrefnau uchod:

- Adolygais y datganiadau ariannol a'r profion i'r dogfennau ategol i asesu cydymffurfiad â darpariaethau'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- Holais y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Awdurdod ac adroddiadau archwilio mewnol; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs busnes arferol; ac

Cyfleais hefyd gyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae disgrifiad pellach o fy nghyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy nhystysgrif.

### Cyfrifoldebau archwilio eraill

Mae'n ofynnol i fi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod yr incwm a'r gwariant a adroddwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddoil. Mae’r fersiwn hon yn gyfieithiad o’r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Awdurdod Meinweoedd Dynol yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

**Gareth Davies**
**Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**

**Dyddiad: 20 Gorffennaf 2023**

Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Datganiadau ariannol

## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y deuddeg mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | **2022/23** **£'000oedd** | 2021/22 £'000'oedd |
|---|---|---|---|
| **Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau** | | | |
| Refeniw o gontractau â chwsmeriaid | 4 | (4,285) | (4,079) |
| Incwm Gweithredu arall | 4 | (204) | (184) |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **(4,489)** | (4,263) |
| | | | |
| **Gwariant** | | | |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau | 3 | 884 | 1,078 |
| Costau staff | 3.1 | 3,738 | 3,500 |
| Dibrisiant, amorteiddio a thaliadau amhariad | 3 | 24 | 7 |
| Dibrisio Ased Hawl i Ddefnyddio | 3 | 85 | 0 |
| Symudiad Darpariaeth | 3 | (25) | (25) |
| Gwariant gweithredu arall | 3 | 229 | 334 |
| Traul prydles | 3 | 7 | 0 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **4,942** | 4,894 |
| | | | |
| **Gwariant Net** | | **453** | 631 |

Nid oes unrhyw eitemau o wariant y dylid eu dangos fel Gwariant Cynhwysfawr Arall. Mae pob eitem o incwm a thraul yn codi o weithgareddau parhaus.

Mae nodiadau 1 i 14 ar dudalennau 70 i 87 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 31-Maw-23 £'000oedd | 31-Maw-22 £'000'oedd |
|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol:** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 5 | 110 | 42 |
| Ased Hawl i Ddefnyddio | 5 | 642 | 0 |
| Asedau anniriaethol | 6 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | | **752** | 42 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 176 | 358 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | 4,611 | 4,078 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **4,787** | 4,436 |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau** | | **5,539** | 4,478 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 10 | 743 | 706 |
| Rhwymedigaeth prydles | 11 | 114 | 0 |
| Darpariaethau | 12 | 0 | 25 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **857** | 731 |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **4,682** | 3,747 |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | | |
| Rhwymedigaeth prydles | 11 | 574 | 0 |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | **574** | 0 |
| | | | |
| **Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **4,108** | 3,747 |
| | | | |
| **Ecwiti Trethdalwyr** | | | |
| Cronfa Incwm a Gwariant Wrth Gefn | | 4,108 | 3,747 |
| **Cyfanswm yr ecwiti** | | **4,108** | 3,747 |

Mae nodiadau 1 i 14 ar dudalennau 72 i 88 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.
Llofnodwyd y datganiadau ariannol ar ran yr Awdurdod Meinweoedd Dynol gan:

(Llofnod)
Dr Colin Sullivan
**Swyddog Cyfrifyddu** **19 Gorffennaf 2023**

## Datganiad o Lifau Arian Parod am y deuddeg mis hyd at 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | 2022/23 £'000oedd | 2021/22 £'000'oedd |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SoCNE | (453) | (631) |
| Addasiad ar gyfer dibrisio ac amorteiddio | 3 | 112 | 56 |
| Llog a dalwyd ar Rwymedigaethau Prydles | 3 | 7 | 0 |
| Symudiad mewn Rhwymedigaethau Prydles | | 22 | |
| Gostyngiad/(Cynnydd) mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 182 | (184) |
| (Lleihad) mewn darpariaeth | 12 | (25) | (25) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | 37 | (101) |
| **(All-lif)/mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(118)** | (885) |
| | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 5 | (95) | (19) |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(95)** | (19) |
| | | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau ariannu** | | | |
| Grantiau gan yr adran sy'n noddi | 1.7 | 814 | 911 |
| Ad-dalu Rhwymedigaethau Prydles | | (68) | 0 |
| **Ariannu net** | | **746** | 911 |
| | | | |
| **Cynnydd/(lleihad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo** | | **533** | 7 |
| | | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod** | 9 | 4,078 | 4,071 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod** | | **4,611** | **4,078** |

Mae nodiadau 1 i 14 ar dudalennau 72 i 88 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr
## Ar gyfer y deuddeg mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | Cronfa Incwm a Gwaruabt Wrth Gefn £'000oedd |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2021** | | 3,467 |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2021/22** | | |
| Gwariant Net | | (631) |
| **Cyfanswm yr Incwm a thraul gydnabyddedig ar gyfer 2021/22** | | (631) |
| Grant gan yr adran sy'n noddi | | 911 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | | **3,747** |
| | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | | |
| **Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2022/23** | | |
| Gwariant Net | | (453) |
| **Cyfanswm yr Incwm a thraul gydnabyddedig ar gyfer 2022/23** | | (453) |
| Grant gan yr adran sy'n noddi | | 814 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | | **4,108** |

Mae nodiadau 1 i 14 ar dudalennau 72 i 88 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Nodiadau i'r cyfrifon

Mae'r nodiadau hyn yn rhan hanfodol o'r datganiadau ariannol ategol a dylid eu darllen ar y cyd â nhw.

## 1. Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Deddf Meinweoedd Dynol 2004, Atodlen 2 (paragraff 16) ac yn unol â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol. Mae'r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd neu fel y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle bo'r Llawlyfr Adrodd Ariannol yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir mai hwnnw yw'r un mwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol at ddiben rhoi darlun gwir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

## 1.1 Busnes gweithredol

Caiff y sail cyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer yr Awdurdod ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn y Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol fel y'u dehonglir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

## 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

## 1.3 Asedau nad ydynt yn gyfredol

Asedau nad ydynt yn gyfredol yw eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol, gan gynnwys costau caffael a datblygu systemau a meddalwedd gyfrifiadurol. Dim ond eitemau neu grwpiau o eitemau cysylltiedig sy'n cosio £5,000 neu fwy sy'n cael eu cyfalafu. Caiff eitemau sy'n costio llai eu trin fel gwariant refeniw yn y flwyddyn gaffael.

Caiff yr holl eiddo, offer a chyfarpar ac asedau anniriaethol a ddelir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2023 eu cario yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio. Defnyddir cost hanesyddol wedi'i dibrisio neu wedi'i hamorteiddio fel procsi am werth teg, ar gyfer y dosbarthiadau o asedau a restrir isod, oherwydd ystyrir bod yr oes ddefnyddiol dros ddibrisio neu amorteiddio'r dosbarth o ased yn adlewyrchiad realistig o'r defnydd o'r dosbarth hwnnw o ased. Caiff ased ei ddibrisio a'i amorteiddio yn fisol o ddyddiad y budd economaidd tybiedig, ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu costau pob ased yn wastad dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

### Offer a Chyfarpar

| | |
|---|---|
| Technoleg Gwybodaeth | 4 blynedd |
| Dodrefn a ffitiadau | 3 neu 5 mlynedd |
| Costau Adnewyddu | 5 neu 10 mlynedd |
| Cyfnod Prydlesu | Asedau Hawl i Ddefnyddio (Prydlesau) |

### Asedau anniriaethol

| | |
|---|---|
| Technoleg Gwybodaeth | 5 mlynedd |
| Gwefannau | 3 blynedd |

## 1.4 Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu (Gwariant datblygu)

Mae'r costau hyn yn ymwneud ag uwchraddio systemau'r Awdurdod, boed hynny'n galedwedd neu'n gymwysiadau sydd eto i'w defnyddio. Nid yw'r asedau hyn yn cael eu dibrisio. Cânt eu dibrisio o'r adeg y dechreuir eu defnyddio.

## 1.5 Amhariadau

Mae'r dull symlach o ymdrin ag amhariadau, yn unol ag IFRS9, yn mesur y lwfans colled ar gyfer symiau masnach derbyniadwy ar swm sy'n hafal i golledion credyd disgwyliedig yn ystod eu hoes (cam 1).
Ar gyfer asedau ariannol eraill, mae'r lwfans colled yn cael ei fesur ar swm sy'n hafal i golledion credyd disgwyliedig yn ystod eu hoes os yw'r risg credyd ar yr offeryn ariannol wedi cynyddu'n sylweddol ers iddo gael ei gydnabod ar y cychwyn (cam 2).

Mae asesiad o holl asedau ariannol yr Awdurdod wedi arwain at symudiad yng ngwerth amhariad symiau derbyniadwy. Wrth gynnal yr asesiad o ddyledwyr ffioedd trwydded, ystyrir y sector, yr hinsawdd economaidd (ar y pryd ac yn y dyfodol) a cholledion blaenorol ac effaith COVID-19. Rhoddir sgôr colled diofyn ar gyfer dyledion dros gyfnod o 28, 42 a 56 diwrnod.

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhoi gwarant pan fetha popeth arall rhag dyledion ei chyrff hyd braich a chyrff y GIG ac, fel y cyfryw, nid yw'r Awdurdod yn cydnabod colledion cam 1 na cham 2 yn erbyn y cyrff hyn.

## 1.6 Dyfarniadau cyfrifyddu hollbwysig a ffynonellau allweddol o ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon

Wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r Awdurdod, mae'n ofynnol i reolwyr lunio dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg o ffynonellau eraill. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir yn berthnasol. Gall canlyniadau gwironeddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Adolygir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sy'n sail iddynt bob blwyddyn. Cydnabyddir diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn ystod y cyfnod diwygio ac mewn cyfnodau yn y dyfodol os bydd y diwygiad yn effeithio ar y cyfnod presennol a chyfnodau yn y dyfodol. Y dyfarniadau y mae rheolwyr wedi eu llunio wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r

Awdurdod ac a all gael effaith sylweddol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yw:

IFRS 9: colledion credyd disgwyliedig – cynhaliwyd adolygiad o amhariad lle yr ystyrir gwybodaeth hanesyddol am ddyledwyr, yr hinsawdd economaidd bresennol a phroffil y sector. Cymhwysir pwysoliad at bob dyled yn unol â nifer y diwrnodau y mae wedi bod yn ddyledus. Mae hyn yn arwain at ddarpariaeth (colled credyd ddisgwyliedig) ar gyfer y symiau hyn sy'n ddyledus. Nid yw'r adolygiad hwn yn cynnwys dyledwyr sy'n rhan o'r GIG (gweler nodyn 1.5).

IFRS 16: penderfynu a yw contract yn cynnwys prydles. Mae'r Awdurdod yn llunio barn wrth benderfynu a yw contract yn brydles neu'n cynnwys prydles ac a yw'r contract yn cyfleu'r hawl i reoli'r defnydd o ased a nodwyd yn gyfnewid am gydnabyddiaeth. Wrth lunio'r farn hon, mae'r Awdurdod yn asesu a yw'r contract, yn ei sylwedd, yn rhoi'r hawl i'r Awdurdod gyfarwyddo'r defnydd o'r ased a nodwyd ac yn caniatáu i'r Awdurdod dderbyn yn sylweddol holl fuddiannau economaidd sy'n gysylltiedig â'r defnydd o'r ased a nodwyd am gyfnod y brydles.

## 1.7 Grantiau a Chymorth Grant y Llywodraeth

Defnyddir cymorth grant a dderbynnir i ariannu gweithgareddau a gwariant sy'n cefnogi amcanion statudol ac amcanion eraill yr Awdurdod. Caiff cymorth grant ei drin fel ariannu a'i gredydu i'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn, am ei fod yn cael ei ystyried yn gyfraniadau oddi wrth barti sy'n rheoli.

## 1.8 Prydlesau

**Gweithredu prydlesau fel y prydlesai**

Cyn pontio i IFRS 16, byddai'r Awdurdod wedi cymhwyso IAS 17 Prydlesau hyd at fis Mawrth 2022, gan gydnabod asedau a brydleswyd fel prydlesau gweithredu. Lle nad oedd risgiau na gwobrwyon perchenogaeth wedi cael eu trosglwyddo'n sylweddol i'r prydlesai (yr Awdurdod), cawsant eu dosbarthu'n brydlesau gweithredu.

Gosodwyd rhenti a oedd yn daladwy o dan brydlesau gweithredu fel treuliau ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

## 1.8a Prydlesau o 1 Ebrill 2022

Mabwysiadodd yr Awdurdod IFRS 16 Prydlesau o 1 Ebrill 2022. Mae IFRS 16 yn newid sylweddol i gyfrifyddu prydleseion sy'n dileu'r gwahaniaeth rhwng prydlesau gweithredu (ariannu oddi ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol) a phrydlesau cyllid (ariannu ar y datganiad o'r sefyllfa ariannol) ac sy'n cyflwyno un model o gyfrifyddu prydleseion. O dan IFRS 16, mae'n rhaid cydnabod asedau a rhwymedigaethau pob prydles yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, ac eithrio prydlesau gwerth isel a phrydlesau byrdymor, h.y. y rhai sy'n para llai na 12 mis. Mae mabwysiadu'r safon yn arwain at gydnabod ased hawl i ddefnyddio, sy'n cynrychioli hawl i

ddefnyddio'r ased sylfaenol a brydlesir, a rhwymedigaeth prydles, sy'n cynrychioli rhwymedigaeth i wneud taliadau prydles.

Prydlesau a ddosbarthwyd yn brydlesau gweithredu yn flaenorol: mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu IFRS 16 ar sail dal i fyny gronnol yn unol â'r gofyniad yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol, ac felly mae'r effaith gronnol ar flynyddoedd blaenorol wedi cael ei chydnabod mewn cronfeydd wrth gefn. Fel y cyfryw, nid yw gwybodaeth gymaradwy'r flwyddyn flaenorol wedi cael ei hailddatgan.

**Mesur y defnydd o ased hawl i ddefnyddio ar adeg pontio** – caiff yr ased hawl i ddefnyddio ei fesur ar swm sy'n hafal i rwymedigaeth y brydles wedi'i addasu yn ôl swm unrhyw ragdaliadau neu daliadau prydles a gronwyd sy'n ymwneud â'r brydles honno a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn union cyn dyddiad y ceisiadau cychwynnol.

**Mesur canlyniadol** – caiff asedau hawl i ddefnyddio eu mesur yn unol â'r dosbarth o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar y mae'r brydles yn ymwneud ag ef. Defnyddir y model cost ar gyfer IFRS 16 fel procsi am brisiad.

**Dibrisio asedau hawl i ddefnyddio** – caiff y rhain eu dibrisio ar sail llinell syth o'r dyddiad cychwyn i ddyddiad ddiwedd:

- oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnyddio
- yr aseswyd ei fod yn yr un dosbarth o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar â'r dosbarth y mae'r brydles yn perthyn iddo neu
- cyfnod y brydles, p'un bynnag sydd gynharaf.

**Mesur rhwymedigaeth prydles** – yn cael ei fesur ar werth presennol y taliadau prydles sy’n weddill gan ddefnyddio’r gyfradd fenthyca gynyddrannol ar ddyddiad y cais cychwynnol. Y gyfradd fenthyca gynyddrannol yw naill ai’r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles neu gyfradd ddisgownt Trysorlys EM lle nad yw’n hawdd pennu cyfraddau llog sydd ymhlyg yn y brydles.

**Mesur canlyniadol** – caiff rhwymedigaeth prydles ei hailfesur i adlewyrchu newidiadau i'r taliad prydles. Mae'r Awdurdod yn ailfesur rhwymedigaeth y brydles drwy ddisgowntio'r taliadau prydles diwygiedig gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio ddiwygiedig os oes newidiadau i'r canlynol: cyfnod y brydles, neu daliadau prydles yn y dyfodol sy'n arwain at newid yn y gyfradd mynegai a ddefnyddir i bennu'r taliadau prydles yn y dyfodol, gan gynnwys newid i adlewyrchu newidiadau mewn cyfraddau rhentu ar y farchnad yn sgil adolygiad o renti'r farchnad. Dim ond pan fydd newid yn y llif arian parod (a fydd yn digwydd pan fydd yr addasiad i'r taliadau prydles yn weithredol) y bydd yr Awdurdod yn ailfesur rhwymedigaeth y brydles i adlewyrchu'r taliadau prydles diwygiedig hynny.

## 1.9 Incwm

Mae ein prif ffynhonnell o incwm ar ffurf ffioedd am drwyddedau oddi wrth sefydliadau y mae meinweoedd dynol ar eu safleoedd a ffioedd penodedig oddi wrth weinyddiaethau datganoledig, am waith ar bolisïau a thrawsblaniadau.

Mae trefniant cytundebol rhwng yr Awdurdod a'i sefydliadau yn unol ag IFRS 15 a'r model pum cam. Tybir bod y ddeddfwriaeth sylfaenol yn gorfodi rhwymedigaethau cytundebol ar y ddau barti, ac felly ystyrir bod y trefniadau hyn yn gontractau o dan IFRS 15. Mae rhwymedigaethau o ran perfformiad rhwng yr Awdurdod a'i sefydliadau, lle mae rhwymedigaeth ar y sefydliadau i gydymffurfio â rhai amodau safonol ac yn gyfnewid am hynny bydd yr Awdurdod yn rhoi trwydded iddynt am gyfnod penodol o flwyddyn.

Gellir codi pris trafodiad (ffi am drwydded) sy'n wahanol ar gyfer pob math o drwydded. Codir ffioedd trwydded ar gyfer y flwyddyn ariannol o fis Ebrill i fis Mawrth, sy'n adlewyrchu'r gweithgarwch rheoleiddio sy'n cael ei gynnal. Rydym yn cydnabod yr incwm hwn yn y flwyddyn ariannol y caiff ei anfonebu, sef dros gyfnod lle mae'r rhwymediaeth o ran perfformiad (y gwaith a wneir gan yr Awdurdod i roi trwydded) wedi'i bodloni.

Mae incwm arall a dderbyniwyd gan yr Awdurdod yn ymwneud â staff ar secondiad. Cydnabyddir incwm ar sail croniadau, a thybir bod rhwymedigaeth o ran perfformiad o'r adeg y caiff y nwyddau neu'r gwasanaethau hyn eu darparu.

## 1.10 Buddiannau i gyflogeion

Cydnabyddir cyflogau a thaliadau sy'n ymwneud â chyflogaeth yn y cyfnod y derbynnir y gwasanaeth oddi wrth gyflogeion. Cydnabyddir cost gwyliau a enillwyd ond nas cymerwyd gan gyflogeion ar ddiwedd y cyfnod yn y datganiadau ariannol i'r graddau y caniateir i gyflogeion gario gwyliau ymlaen i'r cyfnod dilynol.

## 1.11 Pensiynau

Caiff cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol eu cwmpasu gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y GIG (NHSPS). Ceir manylion am y buddiannau sy'n daladwy o dan y darpariaethau hyn ar wefan Pensiynau'r GIG yn www.nhsbsa.nhs.uk/pensions. Cynllun buddiannau diffiniedig nas ariannwyd ydyw, sy'n cwmpasu cyflogwyr y GIG, meddygfeydd a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r Cynllun wedi'i gynllunio i redeg mewn ffordd a fyddai'n galluogi cyrff y GIG i nodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y Cynllun. Felly, cyfrifir am y Cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig: tybir bod cost cymryd rhan yn y Cynllun i'r Awdurdod yn hafal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r Cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu.

## 1.12 Asedau ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol pan fydd yr Awdurdod yn dod yn barti yng nghontract yr offeryn ariannol neu, yn achos symiau derbyniadwy contract, pan fydd y nwyddau neu'r gwasanaethau wedi cael eu darparu. Caiff asedau ariannol eu dadgydnabod pan fydd yr hawliau cytundebol wedi dod i ben neu pan fydd yr ased wedi cael ei drosglwyddo.

O dan IFRS 9, cyflwynwyd dull o ddosbarthu a mesur asedau ariannol ychydig flynyddoedd yn ôl. O dan y dosbarthiad hwn, caiff ein symiau derbyniadwy eu dosbarthu yn ôl sut maent yn cael eu mesur wedyn. Yn yr achos hwn, cânt eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio 'prawf model busnes'.

## 1.13 Rhwymedigaethau ariannol

Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol pan fydd yr Awdurdod yn dod yn barti yn narpariaethau cytundebol yr offeryn ariannol, neu, yn achos symiau masnach taladwy, pan fydd wedi derbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau. Caiff rhwymedigaethau ariannol eu dadgydnabod pan fydd y rhwymedigaeth wedi cael ei thalu neu pan ddaw i ben.

## 1.14 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Ystyr arian parod yw arian parod mewn llaw ac adneuon ag unrhyw sefydliad ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar ôl rhoi rhybudd o 24 awr ar y mwyaf. Byddai'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys buddsoddiadau sy'n aeddfedu o fewn tri mis neu lai i'r dyddiad caffael ac y mae'n hawdd eu troi'n symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

## 1.15 Safonau wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto

Nid yw Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys wedi ei gwneud yn ofynnol cymhwyso'r Safonau a'r Dehongliadau canlynol yn 2022/23. Byddai cymhwyso'r Safonau fel y'u diwygiwyd yn cael effaith sylweddol ar y cyfrifon yn 2022/23 pe baent yn cael eu cymhwyso yn y flwyddyn honno.

IFRS 17 - Contractau Yswiriant - sy'n gymwys i gyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2021. Nid yw'r Safon hon wedi cael ei mabwysiadu eto gan y Llawlyfr Adrodd Ariannol ond disgwylir i hynny ddigwydd o fis Ebrill 2025. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw asedau na rhwymedigaethau sy'n cael eu cydnabod fel contractau yswiriant, ac felly ni fydd y safon hon yn cael unrhyw effaith ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod.

## 1.16. Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cydnabod pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddehongliadol bresennol ar yr Awdurdod o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd yn ofynnol i'r Awdurdod fodloni'r rhwymedigaeth, a gellir llunio amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth.

Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ystyried y risgiau a'r elfennau o ansicrwydd. Pan na fydd y gwariant yn cael ei wireddu neu pan na fydd yr amcangyfrif gorau yn crisialu, caiff y ddarpariaeth ei rhyddhau.

## 2. Dadansoddiad o Wariant Net yn ôl Segment

O dan ddiffiniad IFRS 8, mae gan yr Awdurdod un segment gweithredu, ac amcanion y segment hwn yw trwyddedu ac arolygu safleoedd sy'n ymwneud â storio a defnyddio meinweoedd dynol at ddibenion megis ymchwil, trin cleifion, archwiliadau post-mortem, addysgu ac arddangosiadau cyhoeddus.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cymeradwyo organau a mêr esgyn sy'n cael eu rhoi gan bobl fyw.

Mae'r Awdurdod yn codi ffioedd am ei weithgareddau trwyddedu, sydd, ynghyd â chymorth grant gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y corff sy'n ei noddi, yn cael eu defnyddio i gyflawni'r amcanion hyn.

## 3. Gwariant Arall

| | Nodiadau | **2022/23 £000'oedd** | 2021/22 £000'oedd |
|---|---|---|---|
| **Costau Staff** | 3.1 | 3,738 | 3,500 |
| **Prynu nwyddau a gwasanaethau** | | | |
| Costau rhedeg cyfrifiaduron | | 242 | 329 |
| Recriwtio, hyfforddiant a lles staff | | 115 | 142 |
| Ymgynghoriaeth | | 74 | 323 |
| Costau'r swyddfa a chostau gweinyddol | | 16 | 28 |
| Contractau Cynnal a Chadw | | 96 | 90 |
| Teithio, cynhaliaeth a lletygarwch | | 157 | 37 |
| Cynadleddau a Digwyddiadau | | 5 | 0 |
| Deunydd ysgrifennu a chyhoeddiadau | | 22 | 18 |
| Cydnabyddiaeth yr Archwilwyr | (a) | 82 | 83 |
| Ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol | | 75 | 28 |
| | | 884 | 1,078 |
| **Costau gweithredu eraill** | | | |
| Swyddfa | | 169 | 165 |
| Costau prosiectau | | 55 | 162 |
| Telathrebu | | 7 | 7 |
| Dileu Drwgddyledion | | (2) | 0 |
| | | 229 | 334 |
| **Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod** | | | |
| Dibrisio ac amorteiddio | 5.6 | 112 | 56 |
| Symudiad mewn amhariad ar gyfer colled credyd ddisgwyliedig | 8 | (3) | (49) |
| Llog prydles | | 7 | 0 |
| Darpariaeth a ddarparwyd/(a ryddhawyd) yn ystod y flwyddyn | | (25) | (25) |
| | | 91 | (18) |
| **Cyfanswm** | | **4,942** | 4,894 |

**Nodiadau**

| | | | |
|---|---|---|---|
| (a) Ffioedd archwilio | Mewnol | 46 | 53 |
| | Allanol | 36 | 30 |
| | | **82** | 83 |

## 3.1 Nifer y staff a chostau cysylltiedig

**Mae costau staff yn cynnwys:**

| | **2022/23** | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£000'oedd** | £000'oedd |
| Cyflogau | **2,906** | 2,799 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **327** | 266 |
| Costau pensiwn | **505** | 435 |
| Is-gyfanswm | **3,738** | 3,500 |
| Llai symiau a adenillwyd mewn perthynas â | | |
| Secondiadau i'r tu allan | **(63)** | (50) |
| Cyfanswm costau net | **3,675** | 3,450 |

Ceir manylion cydnabyddiaeth a delir i'r Aelodau a'r Uwch Dîm Rheoli yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff.

Ar gyfer 2022/23 talwyd cyfraniadau o £471,147 (2021/22, £405,629) i Gynllun Pensiwn y GIG (NHSPS) ar y cyfraddau a ragnodwyd gan Drysorlys EF. Y gyfradd gyfredol ar gyfer Cynllun Pensiwn y GIG yw 20.68% o dâl pensiynadwy yn unol â lefel y cyflog.

**Nifer cyfartalog y personau a gyflogir**

Roedd nifer cyfartalog y personau cyfwerth ag amser cyflawn a oedd yn cael eu cyflogi neu eu secondio yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | **2022/23** | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **Cyfanswm** | Cyfanswm |
| Wedi'u Cyflogi'n Uniongyrchol | 53 | 46 |
| Cyfanswm nifer y staff cyfwerth ag amser cyflawn | **53** | 46 |
| Staff dros dro | **1** | 5 |
| Cyfanswm | **54** | 51 |

Yn ystod y flwyddyn, roedd dau aelod o'r staff ar secondiad am ran o'u hamser yn yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol ar ddau ddiwrnod a hanner yr wythnos. Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod 58 o staff cyfwerth ag amser cyflawn (2021/22, 45.5).

Cyflogwyd un contractwr yn ystod y flwyddyn.

## 4. Incwm

**Mae incwm yn cynnwys:**

| | Noder | **2022/23** | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | | **£000'oedd** | **£000'oedd** |
| Refeniw o gontractau: | | | |
| Incwm o Ffioedd Trwydded | | (4,285) | (4,079) |
| Incwm oddi wrth y gweinyddiaethau datganoledig | | (134) | (134) |
| Is-gyfanswm | | (4,419) | (4,213) |
| Incwm Gweithredu Arall | 4.1 | (70) | (50) |
| Cyfanswm yr Incwm | | **(4,489)** | (4,263) |

Cylch gwaith yr Awdurdod yw rheoleiddio'r broses o dynnu, storio, defnyddio a gwaredu organau a meinweoedd dynol o bobl ymadawedig. Yn unol ag adran 16, atodlen 3, paragraff 2 (4)(f) a pharagraff 13 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, caiff yr Awdurdod roi trwyddedau i sefydliadau eraill a chodi ffioedd am y trwyddedau hynny.

## 4.1 Incwm Gweithredu Arall

| | **2022/23** | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£000'oedd** | £000'oedd |
| Incwm arall – Secondeion i'r tu allan | (63) | (50) |
| Incwm arall – Amrywiol | (7) | 0 |
| Cyfanswm | (70) | (50) |

Incwm arall – mae secondeion i'r tu allan yn cyfeirio at ddau aelod o'r staff a oedd yn gweithio i sefydliad arall yn rhan amser.

## 5. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Ased Hawl Defnydd - eiddo £000'oedd | Technoleg Gwybodaeth - caledwedd £000'oedd | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu £000'oedd | Cyfanswm £000'oedd | Prydlesau o fewn Grŵp yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeith-asol £000'oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 0 | 135 | 9 | 144 | 0 |
| Ychwanegiadau | 0 | 95 | 0 | 95 | 0 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addasiadau | 727 | 0 | 0 | 727 | 727 |
| Trosglwyddiadau | 0 | 9 | (9) | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 727 | 239 | 0 | 966 | 727 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 0 | 102 | 0 | 102 | 0 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 85 | 27 | 0 | 112 | 85 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 85 | 129 | 0 | 214 | 85 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023** | **642** | **110** | **0** | **752** | **642** |
| Asedau sy'n eiddo i'r Awdurdod | 0 | 110 | 0 | 110 | 0 |
| Asedau a brydlesir gan yr Awdurdod | 642 | 0 | 0 | 642 | 642 |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2022** | **0** | **33** | **9** | **42** | **0** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 0 | 125 | 0 | 125 | 0 |
| Ychwanegiadau | 0 | 10 | 9 | 19 | 0 |
| Gwarediadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Addasiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 0 | 135 | 9 | 144 | 0 |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 0 | 70 | 0 | 70 | 0 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 0 | 32 | 0 | 32 | 0 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 0 | 102 | 0 | 102 | 0 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022** | **0** | **33** | **9** | **42** | **0** |
| **Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2021** | 0 | 55 | 0 | 55 | 0 |

Mae'r holl asedau yn eiddo i'r Awdurdod

## 5a. Gwerth cario asedau hawl i ddefnyddio a rannwyd yn ôl parti i gontract

| | £000'oedd |
|---|---|
| Prydleswyd oddi wrth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 642 |
| Prydleswyd oddi wrth grŵp NHS England | 0 |
| Prydleswyd oddi wrth NHS Providers | 0 |
| Prydleswyd oddi wrth Asiantaethau Gweithredol | 0 |
| Prydleswyd oddi wrth Gyrff Cyhoeddus Anadrannol | 0 |
| Prydleswyd oddi wrth gyrff grŵp eraill | 0 |
| **Cyfanswm** | **642** |

## 6. Asedau Anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth £000'oedd | Cyfanswm £000'oedd |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,132 | 1,132 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 1,132 | 1,132 |
| | | |
| **Amorteiddio** | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 1,132 | 1,132 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | 1,132 | 1,132 |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023** | **0** | **0** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2022 | 0 | 0 |

Mae'r holl asedau yn eiddo i'r Awdurdod

Cost gros ein system Rheoli Cydberthnasau â Chwsmeriaid yw £1,132k a'i gwerth llyfr net yw dim. Mae'r system yn ased a grëwyd yn fewnol a daeth ei hoes ddefnyddiol i ben ym mis Mawrth 2022. Bydd yn aros ar y gofrestr o asedau sefydlog wrth i benderfyniadau ynglŷn â gofynion yn y dyfodol gael eu gwneud.

| | | |
|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 1,132 | 1,132 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 1,132 | 1,132 |
| | | |
| **Amorteiddio** | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 1,108 | 1,108 |
| Tâl a godwyd am y flwyddyn | 24 | 24 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | 1,132 | **1,132** |
| **Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022** | **0** | **0** |
| Gwerth llyfr net ar 1 Ebrill 2021 | 24 | 24 |

## 7. Offerynnau ariannol

O dan IFRS 7 Datgelu Offerynnau Ariannol, mae'n rhaid datgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chwarae yn ystod y cyfnod o ran creu neu newid y risgiau y mae endid yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl sy'n llawer mwy cyfyngedig o ran creu neu newid risg yn yr Awdurdod nag a fyddai'n arferol yn y cwmnïau rhestredig y mae IFRS 7 yn gymwys iddynt yn bennaf. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol eu cynhyrchu gan weithgareddau gweithredu o ddydd i ddydd yn hytrach na chael eu hystyried yn offerynnau sy'n newid y risgiau y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

### Risg hylifedd

Mae'r Awdurdod yn cael y rhan fwyaf o'i incwm o ffioedd trwydded blynyddol sy'n daladwy gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn bennaf. Caiff gofynion adnoddau refeniw eraill eu hariannu drwy grant gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r rhain, ynghyd â phroses gadarn o adennill dyledion, rhagweld llif arian parod a gwneud taliadau, yn sicrhau nad yw'r Awdurdod yn cael ei amlygu i risg sylweddol i'w hylifedd.

### Risg y farchnad a chyfraddau llog

Ar 31 Mawrth 2023, roedd cyfraddau llog rhwymedigaethau ariannol yr Awdurdod yn ddim. Mae asedau ariannol yr Awdurdod yn ymwneud â symiau derbyniadwy a balansau arian parod a ddaliwyd ar 31 Mawrth 2023 yn y cyfrif banc â Royal Bank of Scotland a'r cyfrif cyfredol masnachol â Barclays, nad ydynt yn dwyn llog. Pennir y llog ar falansau arian parod gan y banciau. Felly, nid yw'r Awdurdod yn cael ei amlygu i risg sylweddol o ran cyfraddau llog.

### Risg credyd

Mae'r Awdurdod yn cael y rhan fwyaf o'i incwm o ffioedd trwydded o farchnad y GIG a'r farchnad y tu allan i'r GIG. Mae polisi rheoli credyd sy'n addas at y diben ar waith ganddo a, lle y bo'n gymwys, mae'n darparu ar gyfer y risg na chaiff dyledion eu had-dalu gan y sefydliadau hynny y mae'n eu trwyddedu. Felly, nid yw'r Awdurdod yn cael ei amlygu i unrhyw risg sylweddol o ran credyd.

Roedd yr adroddiad ar hen ddyledwyr ar gyfer symiau derbyniadwy gan y GIG a chan eraill ar 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

| | **£000'oedd** |
|---|---:|
| Cyfrifon nad ydynt yn ddyledus | 0 |
| Yn ddyledus ers 0-28 diwrnod | 4 |
| Yn ddyledus ers mwy na 29 diwrnod | 113 |

## Risg o ran arian cyfred

Sefydliad domestig ar y cyfan yw'r Awdurdod, gyda'r mwyafrif helaeth o'i drafodiadau, ei asedau a'i rwymedigaethau yn codi yn y DU ac mewn sterling. Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw weithrediadau dramor. Felly, mae amlygiad yr Awdurdod i newidiadau mewn cyfraddau arian cyfred yn fach.

## Offerynnau ariannol a ddelir gan yr Awdurdod

| **Yn ôl categori** | **Symiau derbyniadwy ac asedau ariannol eraill** |
|---|---|
| | **31 Mawrth** |
| **Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio** | **£'000oedd** |
| Symiau derbyniadwy contractau (yn glir o ddarpariaethau) | 84 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 4 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 4,611 |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2023** | **4,699** |
| Symiau derbyniadwy contractau (yn glir o ddarpariaethau) | 273 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 4 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | 4,078 |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2022** | **4,355** |

## Rhwymedigaethau ariannol

| **Yn ôl categori** | Rhwymedigaethau ariannol eraill |
|---|---|
| | **31 Mawrth** |
| **Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio** | **£'000oedd** |
| Symiau taladwy contractau | 39 |
| Symiau taladwy eraill | 18 |
| Croniadau | 686 |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2023** | **743** |
| Symiau taladwy contractau | 9 |
| Symiau taladwy eraill | 21 |
| Croniadau | 676 |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2022** | **706** |

Ar 31 Mawrth 2023, nid oedd gan yr un o rwymedigaethau'r Awdurdod gyfradd llog gyfnewidiol.

## Gwerthoedd teg

Roedd gwerth teg yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol yn hafal i werth llyfr.

## 8. Symiau masnach taladwy ac asedau cyfredol eraill

| | **31-Maw-23** | 31-Maw-22 |
|---|---|---|
| | **£000'oedd** | £000'oedd |
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau derbyniadwy contractau | 117 | 309 |
| Amhariad o ran colledion credyd | (33) | (36) |
| Symiau derbyniadwy eraill | 4 | 4 |
| Rhagdaliadau | 88 | 81 |
| Asedau contractau | 0 | 0 |
| | **176** | 358 |

**Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn**

Nid oes unrhyw ddyledwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | **£000'oedd** |
|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2022 | 4,078 |
| Newid net mewn arian parod a balansau sy'n cyfateb i arian parod | 533 |
| Balans ar 31 Mawrth 2023 | **4,611** |

| | **31-Maw-23** | 31-Maw-22 |
|---|---|---|
| | **£000'oedd** | £000'oedd |
| Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal: | | |
| Banciau masnachol | 4,565 | 3,799 |
| Gwasanaethau Bancio'r Llywodraeth | 46 | 279 |
| | **4,611** | 4,078 |

Roedd gan y balansau arian parod ar 31 Mawrth 2023 gyfradd gyfnewidiol.

## 10. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | **31-Maw-23 £000'oedd** | 31-Maw-22 £000'oedd |
|---|---|---|
| **Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn** | | |
| Symiau taladwy contractau | 39 | 9 |
| Symiau taladwy eraill | 18 | 21 |
| Croniadau | 686 | 676 |
| | **743** | 706 |

Nid oes unrhyw gredydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 11. Ymrwymiadau o dan brydlesau

**Ymrwymiadau prydlesau yn ôl aeddfedrwydd**

Rhoddir isod yr ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredu i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn yn dilyn blwyddyn y cyfrifon hyn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod pan ddaw'r brydles i ben.

| **Cyfanswm y taliadau prydles gofynnol yn y dyfodol** | **Asedau Hawl i Ddefnyddio (Prydles) £000'oedd** | 31-Maw-23 Cyfanswm £000'oedd |
|---|---|---|
| **Taladwy:** | | |
| Heb fod yn hwyrach na blwyddyn | 114 | 114 |
| Yn hwyrach na blwyddyn, cyn pen pum mlynedd | 364 | 364 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 235 | 235 |
| Llai elfen llog | (25) | (25) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | **688** | **688** |

## 12. Darpariaethau

| | **2022/23 Oddi ar adleoli (Teithio) £000'oedd** | 2021/22 Oddi ar adleoli (Teithio) £000'oedd |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill 2022** | | |
| Darperir yn ystod y flwyddyn | 25 | 50 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 |
| Rhyddhau darpariaeth ar gyfer y cyfnod | (25) | (25) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **0** | 25 |

## 13. Trafodiadau â Phartïon Cysylltiedig

Yn ystod y cyfnod nid oedd unrhyw un o Weinidogion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Aelodau Bwrdd yr Awdurdod nac aelodau o'r staff rheoli allweddol, na phartïon sy'n gysylltiedig ag unrhyw un ohonynt, wedi ymgymryd ag unrhyw drafodiadau perthnasol â'r Awdurdod.

Ystyrir bod yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â nifer sylweddol o drafodiadau perthnasol â'r Adran, a chydag endidau eraill yr ystyrir bod yr Adran yn rhiant-Adran arnynt, gan gynnwys:

**Sefydliadau**
NHS Blood and Transplant (NHS BT)
Yr Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (HFEA)
Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)

Ceir rhestr isod o'r unigolion y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi eu bod yn cydymffurfio â'r diffiniad o Bartïon Cysylltiedig fel y'i nodwyd yn IAS 24 (Trafodiadau â Phartïon Cysylltiedig) ac felly y tybir eu bod yn bartïon cysylltiedig yr Awdurdod sydd o fewn y Grŵp Adrannol.

**Gweinidogion**
Y Gwir Anrh. Steve Barclay AS
Yr Arglwydd Markham

Nodir isod fanylion ein Haelodau Bwrdd yr ystyrir eu bod yn bartïon cysylltiedig am fod ganddynt fuddiannau mewn sefydliadau sy'n dal trwydded gan yr Awdurdod.

**Aelodau'r Bwrdd**

| | |
|---|---|
| Lynne Berry | Prifysgol Westminster |
| Helen Dodds | Vertex Pharmaceuticals y DU ac Iwerddon |
| Dave Lewis | Ysbyty Poole |

## 14. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion Safon Cyfrifyddu Ryngwladol 10, ystyrir adroddiadau ar ôl y cyfnod cyfrifyddu hyd at y dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r cyfrifon. Caiff hyn ei ddehongli fel dyddiad Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

E0289288
978-1-5286-4033-6